Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD

**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Dydd Llun, 13 Mawrth 2017 at 2.00 pm
Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

3. **Materion Brys**

   Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys.

4. **Cofnodion** (Tudalennau 1 - 12)

   Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

5. **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd**

6. **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru:**

   **a)** Cyflwyniad gan y Ditectif Arolygydd Gary Kelly ar Gaethwasiaeth Gyfoes

   **b)** Gweithredu'r Adolygiad o Blismona yn y Gymdogaeth (Tudalennau 13 - 21)

   **c)** Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 22 - 49)

   **d)** Diweddariad gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 50 - 61)

   **e)** Diweddariad ar Gyllideb 2016/17 (fel yr oedd hi ar 31 Rhagfyr 2016) (Tudalennau 62 - 66)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

## 7. Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal:

**a)** Amserlen gyfarfod arfaethedig ar gyfer 2017/18

Dydd Llun, 26 Mehefin 2017 @ 2.00 pm
Dydd Llun, 25 Medi 2017 @ 2.00 pm
Dydd Llun, 13 Tachwedd 2017 @ 2.00 pm
Dydd Llun, 11 Rhagfyr 2017 @ 2.00 pm
Dydd Llun, 22 Ionawr 2018@ 2.00 pm
Dydd Mawrth, 30 Ionawr 2018 @ 2.00 pm
(Rhag ofn i'r praesept gael ei wrthod)
Dydd Llun, 19 Mawrth 2018 @ 2.00 pm

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Brian Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Glenys Diskin | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Philip C. Evans Y.H. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng David Griffiths | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Julie Fallon (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng William T. Hughes | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Bernie McCann | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Dilwyn Morgan | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Neville Phillips OBE Y.H. | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Gethin Williams | Cyngor Gwynedd |
| | |
| Pat Astbury (Is-Gadeirydd) | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Matthew Forbes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| William John Williams | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwer: mae'n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono'n cael ei ffilmio. Gallai'r lluniau a'r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw'r mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r mannau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a'r posibilrwydd y bydd y lluniau a'r recordiadau sain hynny'n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Mawrth, 31 Ionawr 2017, am 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Y Cynghorydd Julie Fallon (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr: Pat Astbury, Brian Blakeley, Captain Matthew Forbes, David Griffiths, Dilwyn Morgan, Neville Phillips a John Williams |
| Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig | Pat Astbury, Capten Matthew Forbes a John Williams |
| Swyddogion: | Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a Richard Jarvis (Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol) |
| Hefyd yn bresennol: | Guto Edwards (Pennaeth Cyllid (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Heddlu Gogledd Cymru), Ann Griffith (Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Stephen Hughes (Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Arfon Jones (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Tracey Martin, (Cyfarwyddwr Cyllid Ac Adnoddau - Heddlu Gogledd Cymru) a Rhian Rees Roberts (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd). |
| Yn absennol: | Y Cynghorwyr: Glenys Diskin a William T Hughes |

55. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Philip C. Evans Y.H. (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Bernie McCann (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Gethin Williams (Cyngor Gwynedd).

56. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) gysylltiad personol, gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

57. **MATERION BRYS**

Dim.

58. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Dim.

59. **CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU DRAFFT (I DDILYN)**

Roedd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi cylchredeg drafft Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i'r Panel Heddlu a Throsedd cyn y cyfarfod, gan nad yw wedi ei rhyddhau i'r cyhoedd ar hyn o bryd a'i bod yn ddogfen gyfyngedig.

Wrth ddatblygu Cynllun yr Heddlu a Throsedd, roedd y Comisiynydd wedi gwrando ar: y cyhoedd; pryderon y gymuned fusnes; y sector gwirfoddol; a'r Prif Gwnstabl, Uwch Swyddogion, Swyddogion a staff yr Heddlu. Yn ogystal, roedd y Comisiynydd wedi ystyried canfyddiadau'r asesiad strategol cenedlaethol a'r asesiad lleol a gynhaliwyd gan Heddlu Gogledd Cymru a nododd y prif feysydd bygythiad, risg a niwed y mae'n rhaid canolbwyntio arnynt, a'r meysydd hynny y mae'r Comisiynydd yn bwriadu eu blaenoriaethu o fewn y Cynllun.

Felly, roedd y Comisiynydd wedi clustnodi'r pedwar maes blaenoriaeth canlynol ar gyfer Gogledd Cymru:

- Cam-drin domestig
- Caethwasiaeth Fodern
- Trosedd Gyfundrefnol
- Cam-Drin Rhywiol ar-lein ac all-lein (gan gynnwys cam-fanteisio'n rhywiol ar blant)

Roedd Cam-Drin Domestig a Cham-drin Rhywiol (gan gynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ) wedi bod yn flaenoriaethau yn y cynllun blaenorol, tra roedd trosedd gyfundrefnol yn thema drawsbynciol. Yr unig flaenoriaeth newydd, mae'n bosib nad yw'r Panel yn gyfarwydd ag ef, oedd Caethwasiaeth Fodern.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â chynnwys Caethwasiaeth Fodern fel blaenoriaeth, eglurodd y Comisiynydd fod Caethwasiaeth Fodern yn cyfeirio at ecsbloetio pobl ddiamddiffyn drwy weithgareddau fel masnachu mewn pobl a llafur gorfodol. Tra roedd yn anodd dangos ystadegau, gan fod y drosedd yn aml yn cael ei chuddio o'r golwg, a dioddefwyr yn aml yn amharod i fynd at yr Heddlu, oherwydd y lefelau o reolaeth ac ofn a roir arnynt, gobeithir y bydd cynnydd yn y nifer o ddigwyddiadau a adroddir amdanynt o ganlyniad i ganolbwyntio ar Gaethwasiaeth Fodern, ac y bydd mwy o ymwybyddiaeth o'r drosedd o fewn sefydliadau partner.

Eglurodd y Comisiynydd fod arian ychwanegol yn mynd i fod ar gael er mwyn ariannu swydd Rhingyll newydd a Swyddog Gofal Dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern o fewn Canolfan Gymorth Dioddefwyr Gogledd Cymru. Awgrymodd y Comisiynydd y dylai'r Panel dderbyn cyflwyniad gan y prif Dditectif Arolygydd ar y gwaith i godi ymwybyddiaeth ar Ddiwrnod Caethwasiaeth Fodern.

Roedd y Cadeirydd yn cydnabod fod plismona wedi newid a bod angen canolbwyntio ar wasanaethau gwarchod er mwyn mynd i'r afael â throseddau fel masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern, a

throseddau difrifol a chyfundrefnol. Fodd bynnag, roedd yn teimlo y dylid cael pumed blaenoriaeth, oedd yn canolbwyntio ar blismona gweladwy a hygyrch. Teimlwyd fod peidio cynnwys hyn fel blaenoriaeth yn golygu fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn anfon y neges anghywir allan i'r cymunedau.

Mewn ymateb, eglurodd y Comisiynydd y byddai pob agwedd arall o blismona, gan gynnwys plismona cymdogaeth yn parhau i gael eu darparu'n effeithiol ac effeithlon; fodd bynnag roedd angen i'r Cynllun ganolbwyntio ar y prif feysydd o fygythiad, risg a niwed.

Cyfeiriwyd hefyd at doriadau arfaethedig i gyllideb Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, oedd wedi golygu torri ar staff Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych. Mewn ymateb, adroddodd y Comisiynydd fod cyllid ar hyn o bryd yn cael ei roi i Awdurdodau Lleol i weinyddu'r partneriaethau, fodd bynnag byddai ariannu'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn uniongyrchol yn ddull gweithredu mwy effeithiol. Roedd y Comisiynydd yn teimlo fod Awdurdodau Lleol yn 'brigdorri' y cyllid cyn ei roi i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ac nad oedd yn gyfrifol am y staff mewn Partneriaethau Diogelwch Cymuned.

Er nad yw'r penderfyniad i dorri cyllid i'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi ei wneud yn ffurfiol eto, byddai manylion y rhybudd penderfyniad yn cael ei gynnwys yn adroddiad diweddaru rheolaidd y Comisiynydd, fel oedd yn arfer digwydd. Er eglurder, gofynnodd y Cadeirydd i'r Comisiynydd ddarparu adroddiad ar sut mae'n dosrannu cyllid i wasanaethau comisiwn.

Eglurodd y Comisiynydd hefyd y byddai'r Timau Cymdogaethau Diogelach sydd newydd eu hailstrwythuro hefyd yn canolbwyntio ar ddiogelwch cymunedol, er mwyn darparu gwasanaeth plismona mwy effeithiol i gymunedau lleol. Dylid bod wedi ymgynghori gyda'r holl Aelodau Etholedig a phob Cyngor Cymuned am y cynlluniau ymgysylltu, fodd bynnag ymddengys nad oedd hyn wedi digwydd. Felly, awgrymodd y Comisiynydd y dylid gwahodd y Prif Uwch-Arolygydd Sacha Hatchett i'r cyfarfod nesaf i egluro strwythur a rôl y timau Cymdogaethau.

Wrth graffu ar y Cynllun, nododd y Panel y canlynol:

- Roedd y Cynghorydd Brian Blakely yn teimlo fod trigolion yn Sir Ddinbych yn colli allan, oherwydd toriadau yn y cyllid, yn arbennig o safbwynt Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a darpariaeth teledai cylch cyfyng.
    - Roedd trigolion yn disgwyl plismona gweledol yn eu cymunedau am gynnydd yn y praesept; roedd pobl yn teimlo'n fwy diogel pan oedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn patrolio'r strydoedd. Eglurodd y Comisiynydd fod Heddlu Gogledd Cymru, yn draddodiadol wedi ariannu teledu cylch, fodd bynnag cyfrifoldeb yr Awdurdodau Lleol yw hyn bellach. Tra fo'r rhan fwyaf o Awdurdodau wedi cytuno i gyllido darpariaeth teledu cylch cyfyng eu hunain, roedd y Comisiynydd yn credu fod Cyngor Sir Ddinbych wedi penderfynu peidio

ariannu darpariaeth; byddai'r Comisiynydd yn ysgrifennu at y Cynghorydd Blakeley i gael cadarnhad o'r sefyllfa.

- Eglurodd y Comisiynydd hefyd fod troseddau traddodiadol yn gostwng, fod bynnag roedd troseddau ar-lein yn cynyddu'n sylweddol, ac felly roedd yn rhaid i blismona newid er mwyn mynd i'r afael â hyn. Nid oedd cael Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar y stryd yn aros i droseddau ddigwydd yn effeithiol, a byddai angen praesept uwch o lawer i gyllido hyn.
- Adroddodd y Prif Weithredwr (OPCC) fod presenoldeb heddlu mewn cymunedau weithiau'n gwneud i drigolion deimlo'n bryderus.
- Atgoffwyd y Panel hefyd o'r angen i barhau i flaenoriaethu aelodau mwyaf agored i niwed y gymdeithas ac i ddod o hyd i arbedion sylweddol, wrth barhau i ddarparu gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Neville Phillips at drafodaethau diweddar gydag Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint, oedd wedi mynegi eu pryderon nad oedd ymgynghori ystyrlon wedi cael ei gynnal ar y praesept arfaethedig ac ariannu'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol; gofynnwyd am ymgynghori gyda'r Awdurdodau Lleol yn gynharach yn y broses.
  - Mewn ymateb, adroddodd y Comisiynydd ei fod wedi trafod ei gynlluniau ynglŷn â'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru pan oedd Arweinyddion a Phrif Weithredwyr yn bresennol. Yn ogystal, roedd yr holl Aelodau Etholedig wedi cael gwybod mewn e-bost.
- Roedd y Cadeirydd am gael eglurder ar y broses ymgynghori a'r ystadegau/ymatebion, oedd wedi eu defnyddio i hysbysu'r Cynllun.
  - Tra fo'r arolwg ymgynghori cyhoeddus â thema ac wedi darparu adborth ar faterion penodol, roedd yn rhaid rhoi ystyriaeth i asesiadau cenedlaethol a lleol, oedd yn nodi'r bygythiadau tebygol ar gyfer y flwyddyn nesaf.
  - Cytunodd y Prif Weithredwr i ddarparu ystadegau pellach o'r broses ymgynghori yn y cyfarfod nesaf, pan fyddai fersiwn diweddaraf y Cynllun yn cael ei gyflwyno.
- Pwysigrwydd peidio allwyro cyllid o blismona'r ffyrdd, yn arbennig o safbwynt beicwyr modur.
  - Adroddodd y Comisiynydd fod diogelwch ar y ffyrdd yn parhau i fod yn bwysig a rhoddwyd gwybod i'r Panel ei fod yn ddiweddar wedi ei wneud yn Arweinydd Plismona'r Ffyrdd yng Nghymru.
- Y cynnydd yn y nifer o ddigwyddiadau o yfed dan ddylanwad alcohol a chyffuriau.
  - Adroddodd y Comisiynydd fod damweiniau traffig ar y ffordd yn cael eu profi am ddiod a chyffuriau fel mater o drefn a chytunwyd i gyflwyno gwybodaeth bellach ar y nifer o ddigwyddiadau.
- Ariannu mentrau o'r fath fel 'cryfhau targed' er mwyn adnabod troseddau fel trais domestig.
  - Eglurodd y Comisiynydd ei fod yn fodlon ariannu mentrau o'r fath mewn cydweithrediad gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru; byddai hyfforddiant yn cael ei roi i Swyddogion

Tân oedd yn gwneud ymweliadau diogelwch tân ar sut i adnabod arwyddion o drais domestig.

Cytunodd y Panel i gefnogi'r pedair blaenoriaeth o fewn y drafft y Cynllun yr Heddlu a Throsedd ac argymhellwyd y dylai'r Panel gynnwys y bumed flaenoriaeth o safbwynt Plismona Cymunedol / Cymdogaeth a fyddai'n gymorth i ddarparu gwasanaeth hyd yn oed gwell a byddai mwy o bobl yn teimlo'n ddiogel ac â hyder yn eu heddlu (fel y nodir yn Rhagymadrodd Cynllun yr Heddlu a Throsedd).

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Cefnogi'r pedair blaenoriaeth o fewn drafft Cynllun yr Heddlu a Throsedd a bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ystyried cynnwys pumed blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â Phlismona Cymunedol / Cymdogaeth.**

**(b) Gwahodd y Prif Uwch-Arolygydd Sacha Hackett i fynychu'r cyfarfod nesaf ar 13 Mawrth 2017 i roi cyflwyniad ar strwythur a chyfrifoldebau'r Timau Cymdogaethau Diogelach.**

**(c) Gwahodd y Ditectif Arolygydd sy'n arwain ar Gaethwasiaeth Fodern i roi cyflwyniad yng nghyfarfod Panel yr Heddlu a Throsedd yn y dyfodol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r drosedd.**

**(d) Darparu gwybodaeth bellach, fel a ganlyn:**

- **Fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cyflwyno adroddiad i Banel yr Heddlu a Throsedd ar sut mae'n dosrannu cyllid i wasanaethau comisiwn.**
- **Fod y Comisiynydd yn ysgrifennu at y Cynghorydd Brian Blakeley i gadarnhau'r sefyllfa ynglŷn â darpariaeth teledu cylch cyfyng yn Sir Ddinbych.**
- **Cyflwyno'r ystadegau/ymatebion a ddefnyddiwyd i hysbysu Cynllun yr Heddlu a Throsedd yn y cyfarfod nesaf, pan fyddai fersiwn olaf y Cynllun yn cael ei gyflwyno.**
- **Cyflwyno'r ystadegau ar y nifer o ddigwyddiadau o yrru o dan ddylanwad alcohol a chyffuriau i Banel yr Heddlu a Throsedd.**

60. **PRAESEPT A THRETH Y CYNGOR 2017/18**

Cyflwynwyd adroddiad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, oedd yn adolygu sefyllfa ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac yn gosod argymhellion ar gyfer praesept a threth cyngor 2017/18.

Gofynnwyd i'r Panel gymeradwyo praesept o £71,489,111 ar gyfer 2017/18, oedd yn golygu cynnydd mewn treth cyngor o 3.79% yn 2017/18 a chynnydd mewn praesept o 4.64% o 2016/17.

Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid fod cyllid grant ar gyfer pob ardal Heddlu wedi ei dorri o 1.4%. Roedd modd i Lywodraeth y DU gadw at eu

haddewid o gynnydd o ran arian parod gwastad cyffredinol, oherwydd cynnydd uwch na'r disgwyl mewn sylfaen drethu. Tra bo’r gyllideb blismona gyfan wedi cynyddu o 1.69%, oherwydd cynnydd mewn dosrannau canolog (brigdorri) y Swyddfa Gartref, cafodd y cyfanswm sydd ar gael i’w ddosrannu i ardaloedd yr Heddlu ei leihau o 1.4%.

Rhoddwyd gwybod i’r Panel na fyddai’r Comisiynydd yn wynebu lleihad arian parod mewn cyllid fformiwla, cyn belled fod Comisiynwyr yn parhau i gynyddu eu praesept. Fodd bynnag, roedd ansicrwydd cynyddol oherwydd bwriad y Swyddfa Gartref i roi fformiwla newydd ar waith ar gyfer 2018/19; pe byddai'r adolygiad yn golygu gostyngiad sylweddol mewn grant llywodraeth, byddai'n angenrheidiol gwneud toriadau ychwanegol a chynnydd uwch mewn treth cyngor.

Darparodd y Prif Swyddog Cyllid gyflwyniad i’r Panel, oedd yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Cyllid Adnoddau’r Heddlu (Cymru a Lloegr)
- Dosrannau Canolog
- Newidiadau i’r tybiaethau ers y Cynllun Ariannol Tymor Canolig blaenorol.
- Cyllideb arfaethedig ar gyfer 2017/18.
- Risgiau, gan gynnwys:
    - Cyhoeddi’r setliad yn hwyr, gydag ond ychydig syniad o beth y gellid ei ddisgwyl yn y blynyddoedd sydd i ddod.
    - Fformiwla cyllido newydd ar gyfer 2018/19 a’r trefniadau pontio.
    - Lefelau cronfeydd wrth gefn y Comisiynwyr; roedd y Trysorlys yn ystyried os gellid ymgorffori’r rhain i gyfrifiadau cyllid grant. Gwnaed sylwadau gan y Prif Swyddog Cyllid i'r Swyddfa Gartref, ac ar hyn o bryd ni ymddengys fod hyn yn risg sylweddol.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid hefyd fod y Comisiynydd o’r farn y byddai’n well cynyddu treth y cyngor eleni, rhag ofn y bydd y fformiwla newydd yn llai ffafriol i Ogledd Cymru, neu aros am ganlyniad yr adolygiad, a delio gydag unrhyw newid fel bo’r angen. Roedd cronfeydd wrth gefn mewn sefyllfa syndod o iach, er bod y rhan fwyaf wedi eu clustnodi at bwrpasau penodol, roedd digon o gronfeydd wrth gefn ar gyfer y tymor byr. Fodd bynnag, dim ond unwaith y gellid defnyddio cronfa wrth gefn, ac felly yn y dyfodol pe bai setliadau yn anffafriol, byddai'n rhaid gwneud toriadau a chynyddu treth cyngor.

Wrth graffu ar y praesept arfaethedig, cododd y Panel y canlynol:

- Ceisiwyd eglurder ar y Gronfa Trawsnewid.
    - Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid ei bod wedi disodli’r Gronfa Arloesi a’i bod yn cael ei defnyddio i ariannu prosiectau cydweithredol trawsnewidiol.
    - Cafodd y Panel wybod fod Heddlu Gogledd Cymru wedi derbyn cyllid o’r Gronfa Arloesi yn 2016/17 ar gyfer prosiectau cydweithredol (tua £1.2 miliwn) fodd bynnag nid oedd wedi bod yn llwyddiannus mewn cael cyllid ar gyfer prosiectau unigol.
- Brigdorri ar gyfer Mechnïaeth Cyn Cyhuddo.

- Dywedodd y Pennaeth Cyllid (HGC) wrth y Panel fod hyn yn ymwneud â deddfwriaeth newydd, a fyddai'n gweld llwythi gwaith Swyddogion yr Heddlu yn cynyddu.
- Cost y Lefi Prentisiaeth (£0.431 miliwn).
  - Adroddodd y Comisiynydd, tra byddai'r lefi yn cael ei ddefnyddio i hyfforddi recriwtiaid yn Lloegr, nid dyma fyddai'n digwydd yng Nghymru, gan taw ar gyfer swyddogaethau wedi eu datganoli yn unig y gellid defnyddio'r lefi.
  - Roedd y Comisiynydd yn gwneud sylwadau addas, gan ei fod yn teimlo y dylai'r lefi gael ei roi tuag at y Coleg Plismona, er mwyn sicrhau fod gan Gymru yn un safon hyfforddi â Lloegr. Cytunodd y Panel i ysgrifennu at Ysgrifennydd Y Cabinet ar gyfer Cymunedau a Phlant (Carl Sargeant AC) i fynegi pryder am oblygiadau'r Lefi Prentisiaeth ar blismona yng Nghymru ac i gefnogi awgrym y Comisiynydd y dylai'r cyllid gael ei roi tuag at y Coleg Plismona.
- Ceisiwyd manylion pellach o safbwynt y Cynigion Twf:
  - Cafodd y Panel wybod fod HGC yn ailstrwythuro'r Adran Safonau Proffesiynol, mewn ymateb i argymhellion gan Archwiliad Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi.
  - Roedd angen adnoddau ychwanegol ar yr Adran Gyfreithiol er mwyn sicrhau cryfder ac i leihau'r angen i anfon gwaith penodol i gael ei wneud yn allanol.
  - Roedd angen adnoddau ychwanegol hefyd i ariannu Swyddog Cyfathrebu Mewnol, er mwyn datblygu cyfathrebu mewnol ymhellach.
  - Ceisiwyd cyllid hefyd ar gyfer Rheolwr Datblygu a Rheoli Gwybodaeth yn Adnoddau Dynol i edrych ar ddadansoddiadau, yn arbennig o safbwynt absenoldebau salwch. Tra bo'r Heddlu wedi gwneud toriadau yn y maes hwn yn y gorffennol, teimlwyd nad oedd digon o adnoddau yn yr adran bellach.
  - Roedd adnoddau ar gyfer carchar Wrecsam yn cynnwys 3 aelod staff ar oddeutu £50,000 yr un, a chyllid ar gyfer system TG; eglurodd Pennaeth Cyllid (HGC) y byddai 10 Swyddog Ymateb proactif yn mynd i mewn ar lefel prawf.
- Effaith arbedion ar Adrannau.
  - Cafodd y Panel wybod fod ymarfer cyllido wedi'i selio ar sero wedi ei gynnal, oedd wedi arwain at arbedion pellach.
  - Roedd y Gwasanaeth Awyr Heddlu Cenedlaethol bellach yn gontract cenedlaethol.
  - Gostyngiad mewn Swyddogion Cyswllt Ysgolion i 17 yn golygu y byddai Swyddogion yn gorfod gweithio mewn ardaloedd ychydig yn fwy.
  - Cadarnhawyd fod asesiadau effaith addas wedi eu cynnal o safbwynt y gostyngiadau yn y gyllideb.

Gofynnodd y Cadeirydd os oedd 'mynediad i blismona gweladwy' yn un o'r themâu yn yr arolwg cyhoeddus, yn arbennig pan ofynnwyd pa ganran o gynnydd y byddai'r cyhoedd yn fodlon ei dalu mewn Treth Cyngor er mwyn buddsoddi mewn blaenoriaethau plismona.



Mewn ymateb, rhoddodd y Comisiynydd wybod i'r Panel pe bai'r praesept arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, yna byddai mwy na £1 miliwn yn cael

ei fuddsoddi mewn swyddi rheng flaen, oedd yn cynnwys Swyddogion Ymateb proactif i wneud gwaith ar lefel cymunedol lleol, ar draws yr Heddlu, ar droseddwyr problematig lefel is. Gofynnodd y Cadeirydd am gynnwys gwybodaeth ar ddefnyddio'r swyddogion ychwanegol hyn yn y cyflwyniad gan y Prif Uwch-Arolygydd Sacha Hackett.

Gofynnwyd i'r Comisiynydd hefyd gysylltu â'r Panel yn gynt yn y broses, fel y gallai'r Aelodau ddeall goblygiadau'r setliad ar y gyllideb blismona a'r effaith ar y praesept a threth y cyngor yn llwyr.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Cynyddu'r praesept i £71,489,111 ar gyfer 2017/18.**

- **Bydd hyn yn cynyddu Treth y Cyngor o 3.79% - mae hyn yn gyfwerth â £249.21 y flwyddyn, cynnydd o £9.09 y flwyddyn neu 17c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D.**
- **Mae hyn yn gynnydd yn y praesept o 4.64% ers 2016/17, sy'n gyfwerth â chynnydd o £3,167,090.**

**(b) Bod y Panel yn nodi fod toriadau o £2.686m wedi'u nodi ar gyfer 2017/18.**

**(c) Fod y Panel yn nodi y bydd £1.277miliwn o'r toriadau yn cael eu hail-fuddsoddi mewn gweithgareddau rheng flaen.**

**(d) Fod y Panel yn nodi fod £1.001 miliwn pellach yn cael ei fuddsoddi mewn swyddi rheng flaen o'r cynnydd ychwanegol yn y praesept.**

**(e) Fod y Panel yn nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y tybiaethau canlynol:**

- **Y bydd Treth y Cyngor yn cynyddu o 3.79% yn 2017/18 a 2.5% yn 2018/19 hyd 2021 /22.**
- **Y bydd grantiau plismona'n gostwng o 1.4% yn 2017/18 ac 1% pellach bob blwyddyn o 2018/19.**
- **Bydd costau cysylltiedig â'r Lefi Prentisiaeth o 2017/18 yn ychwanegu cost £0.431 miliwn, sy'n gyfwerth â thoriad pellach o 0.59% mewn grant.**

**(f) Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn ysgrifennu at Ysgrifennydd Y Cabinet ar gyfer Cymunedau (Carl Sargeant AC) o safbwynt y Lefi Prentisiaeth.**

**Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ymgysylltu â Phanel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn gynt yn y broses wrth ddatblygu cynigion ar gyfer y praesept a threth y cyngor.**

**(h) Bod gwybodaeth ar ddefnyddio'r Swyddogion Ymateb proactif ychwanegol hyn yn cael ei gynnwys y cyflwyniad gan y Prif Uwch-Arolygydd Sacha Hackett.**

61. **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU A PHRIF GWNSTABL HEDDLU GOGLEDD CYMRU: CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2017-18 HYD 2021-22**

Ystyriwyd yr eitem hon fel rhan o Gofnod 61 uchod - Praesept a Threth y Cyngor 2017/18.

62. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Cynhelir cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddydd Llun 13 Mawrth 2017 am 2pm.

(Daeth y cyfarfod i ben am 3.40 pm)

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 23 Ionawr 2017, am 2.00 pm
Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Y Cynghorydd Julie Fallon,<br><br>Y Cynghorwyr: Brian Blakeley, Philip C. Evans Y.H., Dilwyn Morgan a Neville Phillips |
| Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig | Capten Mathew Forbes a John Williams |
| Swyddogion: | Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), Richard Jarvis (Swyddog Arweiniol a Chynghorydd Cyfreithiol) ac Eurgain Nutting (Cyfieithydd) |
| Hefyd yn bresennol: | Guto Edwards (Pennaeth Cyllid (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Heddlu Gogledd Cymru), Ann Griffith (Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Stephen Hughes (Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Arfon Jones (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) a Rhian Rees Roberts (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd). |

45. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Pat Astbury (Aelod Annibynnol Cyfetholedig), y Cynghorydd Glenys Diskin (Cyngor Sir y Fflint), David Griffiths (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Bernie McCann (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

46. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon gysylltiad personol, gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

47. **MATERION BRYS**

Dim.

48. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2016 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2016.**

49. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Dim.

50. **PRAESEPT A THRETH Y CYNGOR 2017/18**

Dywedodd y Cadeirydd wrth Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru eisiau gohirio ystyried y Praesept a Threth y Cyngor 2017/18, nes eu bod wedi gweld copi o'r Cynllun Heddlu a Throsedd drafft.

Roedd PHT yn teimlo fod y praesept a Chynllun Heddlu a Throsedd yn mynd law yn llaw a'u bod angen gweld y Cynllun a'r dystiolaeth tu ôl i'r blaenoriaethau cyn y gallent wneud penderfyniad ar y praesept.

Pleidleisiodd PHT yn unfrydol i ohirio ystyried y praesept tan ddydd Mawrth, 31 Ionawr 2017.

**PENDERFYNWYD-**

**Gohirio ystyried y Braesept a Threth y Cyngor ar gyfer 2017/18 tan ddydd Mawrth, 31 Ionawr 2017.**

51. **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU A PHRIF GWNSTABL HEDDLU GOGLEDD CYMRU: CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2017-18 HYD 2021-22**

Cafodd yr eitem hon hefyd ei gohirio (gweler Cofnod 50 uchod).

**PENDERFYNWYD-**

**Gohirio ystyried y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2017/18 i 2021/22 tan ddydd Mawrth, 31 Ionawr 2017.**

52. **CYMDEITHAS GENEDLAETHOL PANELI YR HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol adroddiad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, yn ceisio barn ar y posibilrwydd o sefydlu cymdeithas genedlaethol Paneli yr Heddlu a Throsedd (PHT).

Yn y bumed gynhadledd genedlaethol ar gyfer paneli Heddlu a Throsedd a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2016, cafwyd trafodaethau ar y posibilrwydd am gymdeithas PHT.

Yn seiliedig ar waith Frontline Consulting hyd yma gyda PHT yng Nghymru a Lloegr trwy ei gynadleddau, rhwydweithiau rhanbarthol, gweithgarwch dysgu a datblygu a gwaith cyflwyno, byddai Frontline Consulting yn fodlon cynorthwyo gyda datblygu cymdeithas trwy hwyluso cyfarfod archwiliadol, a defnwyd ar gyfer 17 Chwefror 2017 yn Llundain.

Cefnogodd y PHT yr egwyddor o gymdeithas PHT, ei manteision fyddai cael llais cydnabyddedig i gynrychioli barn ar lefel genedlaethol.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Cefnogi sefydlu Cymdeithas Genedlaethol o Baneli yr Heddlu a Throsedd.**

**(b) Bod cadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Swyddog Arweiniol neu'r Swyddog Cefnogi yn mynychu'r cyfarfod archwiliadol ar 27 Chwefror 2017.**

53. **CYNLLUN LWFANS**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol adroddiad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru er mwyn ystyried a ddylid cynyddu'r cap ar yr uchafswm diwrnodau llawn y gellir ei hawlio gan aelodau PHT i 7 diwrnod llawn.

Cymeradwyodd y PHT Gynllun Lwfans ar 4 Mehefin 2013, a oedd yn darparu ar gyfer gwneud taliadau trwy ffi ddyddiol o £198 (£99 am hanner diwrnod), sydd ag uchafswm sy'n gyfwerth â 5 diwrnod llawn y flwyddyn.

Oherwydd yr angen i gynnal cyfarfodydd ychwanegol, megis gwrandawiadau cadarnhau a digwyddiadau hyfforddi, daeth yn amlwg mewn rhai achosion bod Aelodau'r Panel wedi methu hawlio am ddyletswyddau cymeradwy, gan eu bod wedi mynd dros y cap uchafswm.

Byddai swyddogion yn parhau i fonitro hawliadau er mwyn sicrhau bod dyletswyddau cymeradwy yn cael eu gwneud yn unol â'r Cynllun Lwfansau ac nad oedd hawliadau yn fwy na Grant y Swyddfa Gartref.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod y cap ar y Cynllun Lwfansau yn cael ei gynyddu i uchafswm sy'n gyfwerth â 7 diwrnod llawn y flwyddyn.**

54. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Cynhelir cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddydd Mawrth 31 Ionawr 2017.

(Daeth y cyfarfod i ben am 2.10 pm)

## Gweithredu'r Adolygiad o Blismona yn y Gymdogaeth

### 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Heddlu Gogledd Cymru (HGC) Adolygiad o Blismona yn y Gymdogaeth ym mis Gorffennaf 2015. Nod yr adolygiad oedd:

"Adolygu'r strwythur Plismona yn y Gymdogaeth a gwneud y gorau ohono er mwyn gallu canolbwyntio ar ganfod yn gynnar a mynd ati'n rhagweithiol, mewn partneriaeth, i ddelio â phroblemau sy'n codi o safbwynt troseddu ac anhrefn a galwadau ehangach am wasanaethau plismona".

### 2. Argymhellion

Gwnaed 19 o argymhellion (gweler atodiad a). Dechreuodd y cyfnod gweithredu ar 18fed Ebrill 2016.

Mae 18 o'r argymhellion wedi cael eu gweithredu'n llawn.
Mae 1 o'r argymhellion yn dal i gael sylw, sef;

Argymhelliad 17 – Dylid pwyso a mesur cyfleoedd i sefydlu Swyddogion Cwnstabliaeth Arbennig mewn Unedau Diogelwch Cymunedol a Thimau Cymdogaethau Mwy Diogel (TCMD).

Mae'r tair Ardal yn cydnabod bod yna fwy y gellir ei wneud o hyd gyda'r argymhelliad hwn. Mae gan HGC 188 o Gwnstabliaid Arbennig ar hyn o bryd ac mae'n dal i weithio'n galed i recriwtio Cwnstabliaid Arbennig ac maent wedi gwneud cynnydd da eleni; ond oherwydd y broses barhaus o recriwtio Cwnstabliaid yr Heddlu mae rhai Cwnstabliaid Arbennig wedi ymddiswyddo ac wedi ymuno fel cwnstabliaid rheolaidd.

Mae yna nifer o Gwnstabliaid Arbennig wedi'u sefydlu yn y TCMD ar draws ardal yr Heddlu ond ni cheir dim un yn yr Unedau Diogelwch Cymunedol. Mae'r sefyllfa yn cael ei mapio ar hyn o bryd.

### 3. Canlyniadau allweddol o'r adolygiad

Ceir “Timau Cymdogaethau Mwy Diogel” lleol sy’n cynnwys Rhingylliaid, Cwnstabliaid, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) a Chwnstabliaid Arbennig a gefnogir gan “Unedau Diogelwch Cymunedol” Ardal yn cynnwys HGC a’i Bartneriaid.

Y 3 chanlyniad allweddol o’r adolygiad yw:

- Ymgysylltu
- Amlygrwydd
- Datrys problemau

Ceir hefyd ddyheadau o safbwynt ymyrraeth gynnar.

3.1 Ymgysylltu

Mae Cynllun Ymgysylltu’r Ardal Blismona Leol (ABL) yn datgan:

- Cynlluniau patrôl a phresenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol
- Presenoldeb yng Nghyfarfodydd y Cyngor a Chyfarfodydd Cyhoeddus
- Gosod Tasgau Cyfranogol
- Defnyddio’r Cyfryngau Cymdeithasol yn lleol.

Mae Cynllun Ymgysylltu’r ABL a thaenlen gysylltiedig Rhwydweithiau Unigol Allweddol (RhUA) yn ddogfen fyw, sy’n eiddo i’r Arolygydd Rhanbarth ac sy’n disgrifio’r strategaeth ymgysylltu, yr amlder a’r dull. Mae Arolygydd yr ABL hefyd yn llunio Cynlluniau Patrôl o safbwynt troseddau sy’n dod i’r amlwg a thueddiadau a phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae gwerth cael cyfeiriadur RhUA diweddar, manwl, wedi cael ei amlygu dro ar ôl tro, yn enwedig pan geir digwyddiadau sydd â’r potensial i gael effaith sylweddol ar y gymuned leol, er enghraifft: Pencampwriaeth pêl-droed Ewropeaidd pan ymwelwyd â thrigolion Portiwgaleg fel rhan o’r cynlluniau tawelwch meddwl cymunedol cyn y gêm.

3.2 Amlygrwydd

- Mae patrwm Sifftiau PCSOs yn mynd o 7 neu 8am tan 10pm.

- Mae PCSOs yn gweithio’n gyson ar draws yr heddlu tan 10pm oni bai bod gofyn gweithredol penodol iddynt weithio’n hwyrach.
- Mae Mewnrwyd yr Heddlu yn dangos manylion PCSOs fesul ward gyda rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost.
- Mae cyfleuster neges llais ar ffôn pob PCSO.
- Ceir negeseuon e-bost dwyieithog y Tu Allan i Oriau sy’n dweud nad yw’r swyddogion ar gael; dylai’r cyhoedd a chynghorwyr lleol ffonio 101 neu 999 os oes arnynt angen yr heddlu unrhyw adeg.

3.3 Datrys problemau

Yn canolbwyntio ar ganfod yn gynnar:
- Droseddau
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Galw Ehangach – unigolion agored i niwed.

Gweithio ar y cyd â’r gymuned leol/partneriaid/y trydydd sector i ddatrys problemau, lleihau perygl a chadw cymunedau’n ddiogel. Mae’r TCMD yn canfod problemau ar y cyd â’u partneriaid ar y cyfle cyntaf er mwyn lleihau’r galw. Caiff yr arferion gorau eu rhannu ar draws yr heddlu gan ddefnyddio templed safonol a gynhelir ar bwynt a rennir.

Ar 19eg Medi 2017 bydd Heddlu Gogledd Cymru yn cynnal ei seremoni wobrwyo gyntaf i gydnabod a dathlu ein swyddogion heddlu rhagorol, PCSOs, staff yr heddlu a’n hasiantaethau partner sy’n chwilio am atebion arloesol ac effeithiol yn ddiflino i ddatrys problemau a chael llwyddiannau mesuradwy i leihau problemau troseddau, anhrefn a diogelwch y cyhoedd penodol y mae’r heddlu a’r gymuned yn eu hwynebu.

Mae’r dulliau datrys problemau yn nodi ac yn dadansoddi’n systematig broblemau troseddu ac anhrefn, yn datblygu ymatebion penodol i broblemau unigol ac yna’n asesu a fu’r ymateb yn llwyddiannus. Mae’r dulliau datrys problemau yn dwyn swyddogion heddlu lleol i berthnasoedd gwaith cydweithredol â phobl leol. Mae’r atebion yn aml y tu hwnt i gyrraedd yr heddlu ar eu pen eu hunain, sy’n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio gyda phartneriaid mewn asiantaethau eraill. Gweithio mewn partneriaeth a wneir felly i ddatrys problemau.

Caiff y TCMD eu cefnogi gan yr unedau Diogelwch Cymunedol Ardal. Mae'r unedau yn wahanol o ran strwythur ar draws ardal yr Heddlu gan ein bod yn ddibynnol ar gyfranogiad gan bartneriaid/ALlau; fodd bynnag, byddant yn gweithredu mewn ffordd gyson sy'n canolbwyntio ar leihau'r galw/datrys problemau/teuluoedd gofidus/ymyrraeth gynnar. Maent naill ai wedi'u cydleoli ag asiantaethau partner neu'n darparu cysylltiad cryf atynt.

Mae'r siart isod yn dangos cyfansoddiad yr Unedau Diogelwch Cymunedol.





3.4 Ymyrraeth gynnar

Mae ymyrraeth gynnar yn gysyniad cymharol newydd ar gyfer plismona, fodd bynnag, os ydym wir eisiau sicrhau newid rhwng cenedlaethau a gwella canlyniadau ar gyfer ein cymunedau, mae'n hanfodol ein bod yn ymgysylltu â'r teuluoedd/unigolion hynny nad ydynt wedi cyrraedd argyfwng. Er y credir bod y broses ymyrraeth gynnar yn draddodiadol wedi'i hanelu at blant, gellir cymhwyso'r egwyddorion ar draws pob oedran. Y nod yw atal argyfwng a'r gost sy'n gysylltiedig â gwasanaethau statudol.

Mewn hinsawdd lle disgwylir i sefydliadau sector cyhoeddus wneud arbedion wrth iddynt wynebu anghenion mwy a mwy cymhleth, mae'n

bwysicach nag erioed ein bod yn deall y galw a roddir ar ein gwasanaethau yn awr, ac yn rhagweld yr hyn y gellir ei ddisgwyl i'r dyfodol. Dylai hyn ein rhoi mewn sefyllfa lle rydym oll yn ymwybodol o'r amgylchiadau gan ein cynorthwyo i weld beth y dylid rhoi blaenoriaeth iddo i'r dyfodol.




Ar 28ain Tachwedd 2016, fe wnaeth Uned Amddiffyn Unigolion Bregus Heddlu Gogledd Cymru roi ar waith Uned Gyfeirio Ganolog. Fe'i lleolir ym Mhencadlys Bae Colwyn ar draws y coridor i dîm AGC Conwy ac mae'n gyfrifol am ddelio â'r holl atgyfeiriadau drwy'r ffurflenni CID 16 a'r atgyfeiriadau allanol ar draws yr heddlu. Mae'r NPS ac Iechyd wedi ymrwymo i fod yn rhan o'r broses asesu. Mae hyn wrthi'n cael ei ddatblygu. Un rhan allweddol o waith yr Uned Gyfeirio Ganolog yw canfod yn gynnar y plant hynny sydd wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'r plant hynny y mae eu rhieni yn y carchar. Y nod yw i'r achosion hynny gael eu hamlygu yn gynnar a'u cyfeirio am ymyrraeth gynnar i'r adran gwasanaethau plant berthnasol.

Mae'n amlwg o waith parhaus ar draws yr ardaloedd fod gwahanol fodelau ar waith sy'n crisialu rhai elfennau o Ymyrraeth Gynnar. Un weledigaeth gyffredin ar gyfer y dyfodol fyddai cefnogi dull rhagataliol sy'n canolbwyntio ar roi sylw i achosion sylfaenol problemau cyn iddynt wreiddio. Nid yn unig

y gall y newid hwn mewn ffocws wella canlyniadau i'r genhedlaeth nesaf a'u teuluoedd, mae iddo'r potensial i sicrhau arbedion ariannol sylweddol i'r holl randdeiliaid.

4. Crynodeb

Mae'r strwythurau daearyddol presennol yn adlewyrchu ffiniau'r awdurdodau lleol. Mae rhanbarth y Gorllewin yn cwmpasu Ynys Môn a Gwynedd, y rhanbarth Canol yn cwmpasu Sir Ddinbych a Chonwy a'r Dwyrain yn cwmpasu Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae'r tair ardal wedi cyrraedd pwyntiau gwahanol o ran y cynnydd y maent wedi'i wneud gyda'u partneriaid i gyrraedd nod yr adolygiad ond mae'r tair Ardal Blismona Leol yn parhau i ganolbwyntio ar ddwy flaenoriaeth allweddol:

1. Datrys problemau gyda'r partneriaid i ddarparu ymyrraeth gynharach a phriodol yn y pwynt cysylltu, gan ganolbwyntio ar fygythiad, niwed a risg er mwyn lleihau'r galw sydd ar HGC a'i sefydliadau partner.

2. Canfod problemau'n gynnar gan edrych ar y teulu cyfan.

Uwch-arolygydd Jane Banham,
Gwasanaeth Plismona Lleol.

2$^{il}$ Mawrth 2017.

Atodiad a

Argymhelliad 1 – Bydd Arolygydd yr ABL yn cynnal Cynllun Ymgysylltu ar gyfer yr ABL.

Argymhelliad 2 – Bydd Rhingyll y TCMD yn cynnal cyfeiriadur RhUA ar gyfer pob rhanbarth, gan gynnwys unigolion allweddol, rhwydweithiau a grwpiau lleiafrifol.

Argymhelliad 3 - Bydd Arolygydd yr ABL yn gyfrifol am lunio cynlluniau patrôl yr ABL a fydd yn cael eu datblygu gan y swyddog gweithredu ar y cyd â'r ardaloedd.

Argymhelliad 4 - Comisiynu adolygiad o'r safleoedd cyfryngau cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli ar draws y Gwasanaeth Plismona Lleol a diffinio strwythur y cyfryngau cymdeithasol.

Argymhelliad 5 - Bydd y Timau Cymdogaethau Mwy Diogel (TCMD) yn dal i weithio gyda chynrychiolwyr etholedig i ddatblygu'r arfer o osod tasgau cyfranogol.

Argymhelliad 6 - Bydd y TCMD yn chwarae rhan amlwg i reoli eu priod garfan Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM) drwy weithgareddau casglu gwybodaeth ac ymweliadau cydlynol.

Argymhelliad 7 - Bydd canllawiau'n cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu i oruchwylwyr gweithredol a staff yr ystafell reoli er mwyn sicrhau bod PCSOs yn cael eu defnyddio'n briodol.

Argymhelliad 8 - cytuno ar Dasgau Diogelu Cymunedau fel y prif fforwm ar gyfer gosod tasgau yn unol ag unigolion agored i niwed, galw sy'n ailadrodd a thueddiadau troseddu.

Argymhelliad 9 – Tasgau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG) i barhau fel y prif fforwm i bennu tasgau ac adolygu problemau YGG parhaus.

Argymhelliad 10 - Hyfforddiant atal troseddu a datrys problemau i gael ei ddarparu i'r holl TCMD a Chwnstabliaid Patrôl mewn ardaloedd gwledig.

Argymhelliad 11 - Swyddogion Patrôl mewn ardaloedd gwledig i fabwysiadu agwedd hybrid at blismona cymunedol.

Argymhelliad 12 - Bydd Timau Plismona yn y Gymdogaeth yn cael eu hail-enwi yn "Dimau Cymdogaethau Mwy Diogel" (TCMD).

Argymhelliad 13 - Integreiddio Timau Tasgau yn y Gymdogaeth a Thimau Ymgysylltu â'r Gymdogaeth yn TCMD a'u datblygu i fod yn adnodd y gellir gosod tasgau iddo yn unol â'r bygythiad, y risg a'r niwed sy'n codi.

Argymhelliad 14 - Dylai pob ward ddal i gael PCSO penodol. Oherwydd nifer y wardiau, mae'n amlwg y bydd gan bob PCSO gyfrifoldeb penodol dros fwy nag un ward ac y dylid gadael y gwaith o rannu'r wardiau'n briodol i ddisgresiwn Arolygydd yr ABL. Bydd swyddogion unigol yn gyfrifol am sicrhau bod eu manylion yn gywir ar wefan gyhoeddus HGC.

Argymhelliad 15 – Mae rôl Rhingyll y TCMD yn hanfodol a dylid ei diogelu i osgoi diswyddiadau diangen.

Argymhelliad 16 – Datblygu Unedau Diogelwch Cymunedol yn y rhanbarth Canolog (Llanelwy), Gorllewin (Caernarfon), Wrecsam a Sir y Fflint a fydd yn cynnwys staff o'r Adran Diogelwch Cymunedol bresennol, IOM a phartneriaid ac a fydd yn cael eu harwain yn lleol.

Argymhelliad 17 - Dylid pwyso a mesur cyfleoedd i sefydlu Swyddogion Cwnstabliaeth Arbennig mewn Unedau Diogelwch Cymunedol a TCMD.

Argymhelliad 18 – bod y TCMD yn cyd-fynd â'r rotâu patrolio a bod eu hamseroedd dechrau yn gyson.

Argymhelliad 19 – Os caiff NP ei ailstrwythuro mewn unrhyw ffordd dylid gwneud cynllun gweithredu, a fydd yn cynnwys strategaethau cyfathrebu mewnol ac allanol, i gyd-fynd â hynny.

## Rhagair a Gweledigaeth

Fy enw yw Arfon Jones Ym mis Mai 2016 cefais fy ethol yn Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru. Fy ngwaith yw sicrhau bod gan bobl Gogledd Cymru y gwasanaeth heddlu gorau posibl a bod dinasyddion yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi ac ar y strydoedd.

Rwyf yn heddwas sydd wedi ymddeol, ar ôl gadael Heddlu Gogledd Cymru yn 2008 fel Arolygydd. Rwyf yn falch o gael fy ethol fel eich cynrychiolydd ac o ddychwelyd i Heddlu Gogledd Cymru.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn un o'r heddluoedd mwyaf yn ddaearyddol yng Nghymru a Lloegr: o Aberdaron yn y Gorllewin a Wrecsam yn y Dwyrain a lawr i Langollen, Abermaw a Thywyn. Rydym yn ffodus bod Heddlu Gogledd Cymru eisoes yn un o'r gwasanaethau heddlu gorau yn y wlad, gyda chyfraddau troseddu isel, cyfraddau deilliannau cadarnhaol rhagorol ac ymagwedd broffesiynol tuag at ei rôl.

Er bod troseddu wedi cynyddu yn ystod y deuddeng mis diwethaf, mae hynny'n bennaf o ganlyniad i newidiadau yn Safonau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol. Fodd bynnag, wrth i'r Heddlu gynyddu ei ffocws ar droseddu difrifol, efallai y bydd troseddu lefel isel yn parhau i godi.

Mae data hyder a bodlonrwydd Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i fod yn stori gadarnhaol. Ar hyn o bryd mae bodlonrwydd dioddefwyr â'r 'profiad llawn' yn 13eg allan o 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.

Mae hwn yn blatfform cadarn i mi adeiladu arno. Hwn yw fy Nghynllun Heddlu a Throseddu cyntaf, ac rwyf yn benderfynol o sicrhau bod Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio'n effeithiol â'i bartneriaid er mwyn darparu gwasanaeth hyd yn oed gwell a bod mwy o bobl yn teimlo'n ddiogel a bod ganddynt hyder yn eu heddlu.

Mae sut wyf yn bwriadu gwneud hynny, gyda chymorth ein partneriaid, yn gynwysedig yn y Cynllun Heddlu a Throseddu hwn. Rwyf wedi ysgrifennu'r Cynllun hwn gyda'ch help chi. Bu i lawer ohonoch gwblhau fy arolwg ar-lein, siarad â fi yn fy nigwyddiadau ymgynghori neu yn un o'r nifer o ddigwyddiadau yr wyf wedi eu mynychu ers cael fy ethol yn Gomisiynydd.

Rwyf wedi gwrando ar beth mae'r cyhoedd eisiau. Rwyf wedi gwrando ar bryderon y gymuned fusnes. Rwyf wedi gwrando ar y sector gwirfoddol sy'n gweithio mor galed i'n cefnogi. Rwyf wedi gwrando ar y swyddogion heddlu a'r staff sy'n cyflawni eu dyletswyddau gyda'r proffesiynoldeb a'r ymroddiad mwyaf. Ac wrth gwrs, rwyf wedi gwrando ar y Prif Gwnstabl a'i uwch swyddogion. Rwyf hefyd wedi ymgynghori â'n partneriaid statudol. Rwyf hefyd wedi ystyried canfyddiadau'r asesiad strategol cenedlaethol a'r asesiad lleol a gynhaliwyd gan Heddlu Gogledd Cymru. Bu i'r ddwy ddogfen gyfeirio at y prif feysydd bygythiad, risg a niwed y mae'n rhaid i ni ganolbwyntio arnynt, a'r meysydd hynny yr wyf yn bwriadu eu blaenoriaethu.

- **Trais Domestig**
- **Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Mewn Pobl**
- **Cam-drin Rhywiol**
- **Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol**

Yn ychwanegol at y blaenoriaethau yma, mae gwasanaeth heddlu gweladwy a hygyrch yn parhau i fod yn bwysig i'r cyhoedd. Mae'r Cynllun hwn yn adlewyrchu'r hyn mae'r cyhoedd wedi ei ddweud wrthyf ac mae **Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel** yn parhau i fod yn flaenoriaeth i mi.

Mae'r Cynllun Heddlu a Throseddu hwn yn cwmpasu fy mhedair blynedd fel Comisiynydd. Byddaf yn monitro'n ofalus sut mae'r heddlu ac eraill yn ei weithredu, ac os bydd angen newidiadau, bydd hynny'n

cael ei wneud. Rwyf yn edrych ymlaen at weld gweithio effeithiol mewn partneriaeth yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn.

## ***Beth mae CHTh yn ei wneud***

Mae'r ddeddfwriaeth a gyflwynodd Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu (Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011) yn nodi mai fy mhrif ddyletswydd yw darparu heddlu effeithiol ac effeithlon, sy'n dangos gwerth am arian ac sydd yn bennaf oll yn lleihau troseddu.

**Dyma rai o fy mhrif dasgau:**

- Pennu cyllid a phraesept yr Heddlu (y ganran o'r dreth gyngor a ddefnyddir at ddibenion plismona)
- Sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol am gyflawni ei ddyletswydd sylfaenol, sef darparu gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer Gogledd Cymru, darparu gwerth am arian a lleihau troseddu.
- Dosbarthu cyllid trosedd ac anrhefn i grwpiau ar draws Gogledd Cymru.
- Nodi cyfeiriad strategol ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru mewn Cynllun Heddlu a Throseddu.

Mae rôl y Comisiynydd yn un eang ac mae'r gofynion yn sylweddol , felly mae gennyf Ddirprwy, sef Ann Griffiths sydd yn fy helpu i gyflawni fy mlaenoriaethau. Mae gan Ann nifer o flynyddoedd o brofiad o weithio ym maes gofal cymdeithasol, ac mae'n rhannu fy angerdd tuag at ddarparu plismona rhagorol ac mae ganddi ddiddordeb mawr mewn iechyd meddwl a diogelu ein plant a phobl ifanc.

Fel cynrychiolydd y cyhoedd rwyf yn awyddus iawn i sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad i'r holl wybodaeth berthnasol. Oni bai bod yna reswm pendant dros beidio â gwneud hynny, bydd yr holl wybodaeth ar gael ar fy ngwefan. Profwyd eisoes bod y dull hwn wedi bod yn fuddiol, oherwydd derbyniodd fy swyddfa wobr tryloywder yn ddiweddar gan CoPACC[1].

Rwyf hefyd yn cydnabod y rôl bwysig mae Heddlu Gogledd Cymru yn ei chwarae o ran yr economi leol. Rydym yn cyflogi dros 2,000 o bobl ac yn prynu nwyddau a gwasanaethau sy'n werth miliynau o bunnau. Er y byddaf yn sicrhau ein bod yn darparu gwerth am arian, rwyf hefyd yn credu bod gennym ddyletswydd i gaffael nwyddau yn lleol pryd bynnag fo hynny'n bosibl ac rwyf wedi dechrau datblygu Polisi Gwerth Cymdeithasol ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru.

### Comisiynu

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn fy ngalluogi i gomisiynu gwasanaethau yn uniongyrchol gan ddarparwyr y tu allan i wasanaeth yr heddlu. Gall comisiynu gwasanaethau olygu prynu gwasanaethau, ymrwymo i gytundebau neu gontractau cydweithio, darparu grantiau, alinio cyllidebau â phartneriaid, cronni cyllidebau a datblygu cyllidebau cymunedol.

Gellir cael mwy o fanylion am fy strategaeth gomisiynu yn nes ymlaen yn y Cynllun hwn.

[1] Mae CoPACC yn monitro safonau llywodraethiant yr heddlu, gan asesu perfformiad OPCC ac mae'n dyfarnu marciau am brif feysydd atebolrwydd.

## ***Ynghylch Gogledd Cymru***

Ystyrir bod Gogledd Cymru yn un o'r llefydd mwyaf prydferth i fyw ynddo ac i ymweld ag ef yn y DU. Gyda phoblogaeth o 687,500 mae i ardal heddlu Gogledd Cymru arwynebedd o 6,300 cilomedr sgwâr sy'n ymestyn o Bronington yn y Dwyrain i Aberdaron yn y Gorllewin ac o Fae Cemaes yn y Gogledd i Aberdyfi yn y De.

Mae ardal yr Heddlu yn cynnwys chwe sir ddaearyddol yng Ngogledd Cymru, sef Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae ardal yr Heddlu yn cael ei gwasanaethu gan un Bwrdd Iechyd, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a Gwasanaeth ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r ardal hon hefyd yn cael ei gwasanaethu gan yr Ymddiriedolaeth Prawf Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Mae'r ardal yn cynnwys ardaloedd trefol a gwledig y cynnwys dwy ddinas, Parc Cenedlaethol Eryri, dau borthladd arwyddocaol (Caergybi ar Ynys Môn a Mostyn yn Sir y Fflint), ardaloedd diwydiannol sy'n ehangu (yn bennaf yn y Dwyrain a Wylfa Newydd ar Ynys Môn) a nifer o drefi prysur, a nifer ohonynt yn denu nifer fawr o ymwelwyr yn ystod misoedd yr haf.

## ***Siapio'r Cynllun***

Fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu mae'n ofynnol i mi gynhyrchu Cynllun o fewn 12 mis o ddechrau yn y swydd. Mae'r Cynllun yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer fy nhymor o bedair blynedd fel Comisiynydd.

Y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am gyflawni'r blaenoriaethau a geir yn y Cynllun hwn a byddaf yn sicrhau y bydd yn atebol am wneud hynny.

Mae nifer o bobl ar draws Gogledd Cymru wedi fy helpu i ddatblygu'r Cynllun hwn. Mae llawer o waith ac ymgynghori wedi cael ei wneud ag awdurdodau lleol, ein partneriaid statudol, y trydydd sector rhagorol yr ydym mor ffodus o'i gael yn gweithio yma yng Ngogledd Cymru, a'r gymuned fusnes. Mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd wedi fy helpu i sicrhau bod y Cynllun hwn yn bodloni anghenion plismona pobl Gogledd Cymru.

**Heddlu Gogledd Cymru** - cwblhau Asesiad Strategol blynyddol o droseddu ac anrhefn. Drwy hyn gallant werthuso'r risg a achosir gan droseddu ac anrhefn sy'n effeithio ar gymunedau Gogledd Cymru a chlustnodi bygythiadau newydd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

**Arolwg Ymgynghoriad Cyhoeddus** - Rhwng Hydref 2016 ac Ionawr 2017 roedd arolwg ar-lein ar gael ar fy ngwefan oedd yn gofyn am eich safbwyntiau ynghylch beth ddylai'r blaenoriaethau troseddu a phlismona fod. Bu i dros 980 o bobl gwblhau'r arolwg ar-lein a bu i mi gyfarfod â llawer mwy o bobl pan oeddwn yn crwydro strydoedd Gogledd Cymru. Rwyf hefyd yn defnyddio Twitter a Facebook i gysylltu â'r cyhoedd ac mae'r adborth a'r sylwadau yr wyf yn eu derbyn yn helpu i siapio fy ffordd o feddwl.

**Digwyddiad ymgysylltu â'r trydydd sector** - Bob blwyddyn mae fy swyddfa yn trefnu digwyddiad ymgysylltu ar gyfer y trydydd sector. Roedd y digwyddiad a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2016 yn fuddiol iawn a darparodd adborth gwerthfawr ynghylch plismona yng Ngogledd Cymru a beth ddylai fy mlaenoriaethau fod.

## ***Materion a themâu o'r uchod***

**Asesiad Strategol Heddlu Gogledd Cymru**

- Trais Domestig
- Caethwasiaeth Fodern
- Ecsbloetio plant yn rhywiol

**Arolwg Ymgynghoriad Cyhoeddus**

- Gwarchod pobl sy'n agored i niwed
- Taclo troseddu cyfundrefnol
- Ymateb i alwadau yn gyflym ac effeithlon
- Ecsbloetio plant yn rhywiol

**Digwyddiad ymgysylltu â'r trydydd sector**

- Bregusder - yn cynnwys cam-drin domestig, caethwasiaeth fodern, iechyd meddwl, pobl hŷn
- Presenoldeb Heddlu Lleol
- Atal troseddu

## ***Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth er mwyn lleihau niwed***

Mae gweithio gyda'n gilydd yn effeithiol mewn partneriaeth er mwyn lleihau niwed yn ategu cyflawni fy mlaenoriaethau plismona. Mae yna gyfeiriadau lluosog at weithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn y Cynllun hwn er mwyn cydnabod y pwysigrwydd a roddaf i hynny a'i rôl wrth gyflawni gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon. Ni all yr heddlu daclo nifer o'r meysydd yma ar ei ben ei hun.

Hefyd, mae'n bwysig cofio bod gweithio mewn partneriaeth yn lleihau'r galw, ac felly mae hynny'n cynyddu capasiti staff rheng flaen pob awdurdod cyfrifol.

Oherwydd bod y materion sy'n deillio o achosion sy'n ymwneud â cham-drin domestig, ecsbloetio plant yn rhywiol, caethwasiaeth fodern a throseddau difrifol eraill yn aml yn llawer ehangach na phlismona yn unig, gellir ond darparu ymateb effeithiol mewn partneriaeth.

Bydd ffocws cynyddol ar bartneriaethau effeithiol yn y cynllun heddlu a throseddu yn ei dro yn cynyddu ffocws a phwysigrwydd y Cynllun Diogelwch Cymunedol a rôl y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel wrth sicrhau bod y partneriaethau lleol yn atebol am gyflawni blaenoriaethau'r cynllun heddlu a throseddu. Mae'r Heddlu a fy swyddfa i yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau ein bod yn cyfrannu'n llawn at yr asesiadau poblogaeth a gesglir o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol fydd yn hysbysu blaenoriaethau ehangach i bartneriaethau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi papur gwyn ar ddiwygio llywodraeth leol o'r enw "Diwygio llywodraeth leol: Cadernid ac adnewyddiad" ac yn fy ymateb byddaf yn cymeradwyo'r cynigion all danategu cyflawni'r cynllun hwn a diogelu ein cymunedau yn y ffordd orau bosibl.

Heb os, bydd y ffocws ar y troseddau mwyaf difrifol yn cynyddu yn ystod fy nhymor fel Comisiynydd. O ganlyniad i hynny, efallai y bydd mwy o droseddau yn cael eu cofnodi, bydd mwy o droseddwyr yn cael eu herlyn a bydd angen eu monitro ar ôl mynd drwy'r system cyfiawnder troseddol, ac wrth gwrs bydd mwy o ddioddefwyr angen y gofal a'r cymorth gorau posibl.

Wrth i Heddlu Gogledd Cymru gynyddu ei ffocws a buddsoddi mwy o adnoddau ar gyfer y mathau yma o droseddau, byddaf yn ceisio sicrwydd gan ein partneriaid y bydd eu hymateb hwy wrth gefnogi'r heddlu'r un mor effeithiol ac effeithlon.

Yn ddiweddar fe'm penodwyd yn Gadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru. Mae'r bwrdd wedi chwarae rôl allweddol wrth wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y system cyfiawnder troseddol ac rwyf yn edrych ymlaen at dderbyn cefnogaeth ein partneriaid ar y bwrdd hwn er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â dioddefwyr a thystion yn briodol ar bob cam o'u taith drwy'r system cyfiawnder troseddol.

Mae Adran 7 Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 (a ddiwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011) yn rhoi awdurdod i mi alw am adroddiad gan unrhyw awdurdod cyfrifol yr wyf yn ystyried nad ydynt yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae'r term 'awdurdod cyfrifol' yn cynnwys awdurdodau lleol, y gwasanaeth tân, yr ymddiriedolaeth gwasanaeth ambiwlans, y bwrdd iechyd a'r gwasanaeth prawf. Byddaf yn gweithio â'r Prif Gwnstabl, y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel mewn perthynas â hyn a byddaf yn defnyddio'r pwerau statudol a roddwyd i mi er mwyn sicrhau bod yr holl awdurdodau cyfrifol yn ymgysylltu'n llawn ac yn cefnogi cyflawni fy nghynllun heddlu a throseddu.

## ***Amcanion heddlu a throseddu***

Datblygwyd fy amcanion heddlu a throseddu fel ymateb i'r meysydd o fygythiad, risg a niwed mwyaf sy'n wynebu cymunedau Gogledd Cymru. Fe'u hysbyswyd hefyd gan y broses ymgynghori helaeth.

Nid wyf yn cytuno â chael gormod o flaenoriaethau, yn ei hanfod ni all popeth fod yn flaenoriaeth. Rwyf eisiau i'r Prif Gwnstabl ganolbwyntio ar bedwar maes allweddol.

**Rwyf wedi clustnodi pum maes blaenoriaeth ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru.**

- **Cam-drin Domestig**
- **Caethwasiaeth Fodern**
- **Troseddu Cyfundrefnol**
- **Cam-drin Rhywiol (yn cynnwys ecsbloetio plant yn rhywiol)**
- **Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel**

Mae Cynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl yn nodi'r camau penodol fydd Heddlu Gogledd Cymru yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau yma. Mae gweithio mewn partneriaeth i'w taclo yn neilltuol bwysig. Mae'r holl feysydd blaenoriaeth yn cynnwys materion y tu hwnt i blismona, a dim ond mewn partneriaeth y gellir ymateb iddynt yn effeithiol.

**Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth er mwyn lleihau niwed**




Er y byddaf yn monitro perfformiad yr Heddlu yn erbyn y pum blaenoriaeth yma, mae'n ofynnol hefyd wrth gwrs bod agweddau eraill o blismona yn parhau i gael eu cyflawni'n effeithiol ac effeithlon.

Bydd angen egwyddorion sylfaenol plismona effeithiol bob amser. Bydd galwadau'n parhau i gael eu hateb a byddir yn delio â hwy yn briodol. Bydd swyddogion, swyddogion cynorthwyo'r heddlu a'r gymuned a chwnstabliaid arbennig yn parhau i weithio yn ein cymdogaethau ac ymateb i ddigwyddiadau blaenoriaeth uchel yn arbennig. Bydd swyddogion wedi'u hyfforddi'n addas yn cael eu

dyrannu ar gyfer ymchwilio i droseddau. Byddir yn parhau i graffu ar safonau ymddygiad a byddwn yn atebol am hynny.

## *Cam-drin Domestig*

### *Pam fod hyn yn bwysig?*

Mae Cam-drin Domestig yn digwydd bob ddydd, ym mhob rhan o'r DU, yn cynnwys Gogledd Cymru. Bob dydd mae Heddlu Gogledd Cymru yn cofnodi 26 o ddigwyddiadau domestig ar gyfartaledd. Yn ystod y saith mlynedd diwethaf, lladdwyd 936 o ferched gan ddynion yng Nghymru a Lloegr.

Cam-drin Domestig yw'r risg mwyaf sy'n wynebu Heddlu Gogledd Cymru oherwydd yr effaith eang ar y dioddefwr (corfforol, seicolegol ac ariannol), nifer y troseddau a gofnodir a thuedd gynyddol.

Roedd cefnogaeth y cyhoedd i flaenoriaethu Cam-drin Domestig yn sylweddol iawn, ac rydym yn ffodus yng Ngogledd Cymru bod gennym drydydd sector o bobl ymroddedig a phrofiadol sy'n barod i gynorthwyo ein dioddefwyr.

Un o fy mhenderfyniadau cyntaf yn dilyn yr etholiad oedd prynu 301 o ddyfeisiadau fideo ar y corff ychwanegol. Y prif reswm dros wneud hynny oedd effaith dyfeisiadau o'r fath ar achosion Cam-drin Domestig o ran gwella'r dystiolaeth sydd ar gael mewn achosion o'r fath, sy'n arwain at gynnydd yn nifer yr erlyniadau llwyddiannus mewn perthynas â Cham-drin Domestig.

Bydd Gofal Dioddefwyr yn parhau i fod yn bwysig iawn i mi. Fodd bynnag, rwy'n credu bod angen mwy o raglenni ymyrraeth cyflawnwyr ar draws Gogledd Cymru hefyd.

### *Sut byddwn yn gwneud gwahaniaeth?*

- Gweithio gyda'r CPS ar fonitro effaith Fideo ar y Corff ar erlyniadau Cam-drin Domestig.
- Sicrhau bod y lleiafrif o ddioddefwyr sydd yn ddynion yn cael yr un cymorth.
- Gwneud mwy o ddefnydd o raglenni cyflawnwyr yng Ngogledd Cymru er mwyn lleihau aildroseddu ac ail erlid.
- Lleihau aildroseddu drwy ddarparu cyfiawnder effeithiol a mynd i'r afael â ffactorau all arwain at a gwaethygu ymddygiadau troseddol.
- Sicrhau bod riportio cam-drin domestig mor syml â phosibl.
- Bydd Cynghorydd Cam-drin Domestig Annibynnol yn cael ei gynnig fel cynorthwyydd ac eiriolwr i bob achwynydd risg uchel.
- Byddir yn ymchwilio i bob digwyddiad o Gam-drin Domestig. Bydd dioddefwyr a chyflawnwyr mynych yn cael eu harenwi a byddir yn delio â hwy yn briodol.
- Gweithio gyda'r bwrdd iechyd i ddarparu hyfforddiant i Feddygon Teulu ar ymwybyddiaeth o gam-drin domestig (prosiect IRIS).
- Sicrhau bod hyfforddiant yr heddlu yn cael ei hysbysu gan adolygiadau a phrosiectau cenedlaethol megis y Cyfrifiad Merchladdiad.

### *Beth fyddwn yn ei gyflawni?*

- Hyder ymysg dioddefwyr mewn riportio Cam-drin Domestig i Heddlu Gogledd Cymru.
- Nifer priodol o swyddogion arbenigol â'r hyfforddiant priodol er mwyn bodloni'r galw.
- Gwell profiad dioddefwyr drwy'r broses cyfiawnder troseddol.

## *Gwasanaethau a gomisiynir*

Er mwyn helpu Heddlu Gogledd Cymru i gyflawni'r flaenoriaeth hon byddaf yn comisiynu

- Canolfan Cymorth i Ddioddefwyr Gogledd Cymru
- Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol
- Rhaglenni Ymyrraeth Cyflawnwyr

***Eisiau gwybod mwy?***

- Gallwch weld cynllun cyflawni Heddlu Gogledd Cymru yma – angen hyperddolen
- Cysylltwch â llinell gymorth Trais Domestig drwy ffonio 0808 2000 247
- Cysylltwch â Chanolfan Cymorth i Ddioddefwyr Gogledd Cymru ar 0300 30 30 159 neu **northwales.helpcentre@victimsupport.org.uk**

## ***Caethwasiaeth Fodern***

### *Pam fod hyn yn bwysig?*

Mae Caethwasiaeth Fodern yn derm ambarél a ddefnyddir i gyfeirio at ecsbloetio pobl sy’n agored i niwed drwy weithgareddau megis masnachu mewn pobl a llafur gorfodol. Yn aml mae’r troseddu yn cael ei guddio o olwg y cyhoedd, ac mae’r dioddefwyr yn rheolaidd yn amharod i gysylltu â’r heddlu oherwydd y rheolaeth sydd arnynt a’r ofn maent yn ei deimlo.

Mae dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern yn profi lefel uchel o niwed corfforol, seicolegol ac ariannol yn y rhan fwyaf o’r achosion. Er ei bod yn anodd mesur ehangder Caethwasiaeth Fodern ar hyn o bryd, asesir y bydd yn debygol y byddwn yn gweld nifer cynyddol o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn nesaf.

Yn aml nid yw dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern yn ystyried eu hunain fel dioddefwyr ac efallai eu bod yn ystyried bod eu sefyllfa yn well na phrofiadau blaenorol. Mae angen i ni hefyd sicrhau bod y dioddefwyr yn cael eu hystyried fel dioddefwyr, ac nad ydynt yn cael eu diystyru’n syml fel cyflawnwyr troseddau eraill megis mewnfudo anghyfreithlon, puteindra neu ladrata. Mae angen i ni greu’r amgylchedd priodol i ddioddefwyr gael hyder i gysylltu â’r heddlu gan wybod y bydd yr heddlu a’r system cyfiawnder troseddol yn canfod gwell deilliannau iddynt. Yr her i Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau eraill fydd sicrhau bod strategaethau ymgysylltu â dioddefwyr yn adlewyrchu hynny. Rwyf yn cael fy nghalonogi gan waith parhaus y Gweithgor Gwrth-Gaethwasiaeth Rhanbarthol, dan arweiniad Ynys Môn, a bydd yr Heddlu a minnau yn parhau i gefnogi a chyfrannu’n llawn at ddatblygu mwy ar hynny.

### *Sut byddwn yn gwneud gwahaniaeth?*

- Mae porthladd Caergybi yn golygu bod Gogledd Cymru yn ardal allweddol yn y DU mewn perthynas â Chaethwasiaeth Fodern. Bydd yr Heddlu yn asesu’r adroddiadau cudd-wybodaeth ar symudiadau pobl er mwyn penderfynu ar yr ymateb priodol.
- Byddaf yn ceisio dylanwadu ar Lywodraeth y DU er mwyn gwarchod lefel yr adnoddau sy’n weithredol ym Mhorthladdoedd y DU sy'n derbyn arian grant o dan ddarpariaethau Deddf Caethwasiaeth Fodern.
- Ymgysylltu’n llawn â sefydliadau cenedlaethol yn cynnwys y Comisiynydd Gwrth-Gaethwasiaeth er mwyn cydlynu gweithgaredd.
- Addysgu a hysbysu’r cyhoedd ynghylch pa arwyddion i fod yn ymwybodol ohonynt wrth adnabod Caethwasiaeth Fodern
- Annog dioddefwyr i gysylltu â’r heddlu gyda hyder y byddant yn cael eu trin yn dda gan Heddlu Gogledd Cymru.

### *Beth fyddwn yn ei gyflawni?*

- Mwy o riportio troseddau mewn perthynas â Chaethwasiaeth Fodern.
- Darparu cynllun gweithredu amlasiantaeth effeithiol er mwyn taclo’r troseddau yma.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern yn ein partner sefydliadau.

### *Gwasanaethau a gomisiynir*

- Swydd Rhingyll newydd ar gyfer canolbwyntio ar gydweithio â phartneriaid i gasglu gwybodaeth am Gaethwasiaeth Fodern.

***Dan gyfyngiadau***

- Swyddog Gofal Dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern penodedig yng Nghanolfan Cymorth i Ddioddefwyr Gogledd Cymru.

***Eisiau gwybod mwy?***

- Gallwch weld cynllun cyflawni Heddlu Gogledd Cymru yma – angen hyperddolen
- Cysylltwch â llinell gymorth Trais Domestig drwy ffonio 0808 2000 247
- Cysylltwch â Chanolfan Cymorth i Ddioddefwyr Gogledd Cymru ar 0300 30 30 159 neu **northwales.helpcentre@victimsupport.org.uk**

## Cam-drin Rhywiol

### Pam fod hyn yn bwysig?

Mae nifer yr achosion o dreisio ac ymosodiadau rhywiol difrifol eraill, sy'n aml yn cael eu cyflawni gan bartneriaid neu bobl sy'n gyfarwydd i'r dioddefwyr, a riportir i'r heddlu yn uchel. Fodd bynnag, maent yn parhau i gael eu tanriportio ac mae angen gwneud mwy i annog dioddefwyr i gysylltu â'r heddlu, pryd bynnag y digwyddodd y drosedd. Bydd troseddau nad ydynt yn rhai diweddar yn cael eu trin â'r un proffesiynoldeb a pharch â throseddau cyfredol.

Mewn perthynas ag ecsbloetio plant yn rhywiol (CSE), datblygwyd cynllun CSE rhanbarthol amlasiantaeth beth amser yn ôl. Bydd y tîm Onyxm a sefydlwyd gan Heddlu Gogledd Cymru i daclo'r troseddau ffiaidd yma yn parhau i ddatblygu eu gwaith. Byddaf yn gweithio gyda'n partneriaid er mwyn sicrhau bod popeth a ellir ei wneud i ddiogelu'r plant yma yn cael y flaenoriaeth y mae'n ei haeddu.

### Sut byddwn yn gwneud gwahaniaeth?

- Sicrhau bod y lleiafrif o ddioddefwyr sydd yn ddynion yn cael yr un cymorth.
- Gwneud mwy o ddefnydd o raglenni cyflawnwyr yng Ngogledd Cymru er mwyn lleihau aildroseddu ac ail erlid.
- Sicrhau bod riportio cam-drin rhywiol mor syml â phosibl.
- Bydd Cynghorydd Cam-drin Rhywiol Annibynnol yn cael ei gynnig fel cynorthwyydd ac eiriolwr i bob achwynydd risg uchel.
- Byddir yn ymchwilio i bob digwyddiad o Gam-drin Rhywiol. Bydd dioddefwyr a chyflawnwyr mynych yn cael eu harenwi a byddir yn delio â hwy yn briodol.
- Parhau i ddatblygu galluedd rhagweithiol y Tîm Ymchwilio i Bedoffilyddion ac Ar-lein (POLIT) mewn perthynas â chanfod rhai sy'n ecsbloetio plant yn rhywiol, yn cynnwys rhai sy'n edrych ar ddelweddau anweddus o blant drwy'r rhyngrwyd, a gwaith amlasiantaeth effeithiol er mwyn amddiffyn plant sy'n wynebu risg.

### Beth fyddwn yn ei gyflawni?

- Mwy o gam-drin rhywiol a domestig yn cael ei riportio fydd yn adlewyrchu mwy o hyder ymysg dioddefwyr.
- Gwell gwasanaeth yn gyffredinol i ddioddefwyr cam-drin domestig a rhywiol.
- Mwy o gyflawnwyr yn cael eu herlyn.
- Mwy o hyder o ran riportio cam-drin domestig a rhywiol.

### Gwasanaethau a gomisiynir

- Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol a Chynghorwyr Trais Rhywiol Plant a Phobl Ifanc yn gweithio yn y Ganolfan Atgyfeirio Cam-drin Rhywiol

***Eisiau gwybod mwy?***

- Cysylltwch â Cham wrth Gam ar 01978 352 717 neu www.steppingstonesnorthwales.co.uk
- Cysylltwch â RASASC Gogledd Cymru ar 01286 669267
- Cysylltwch â Chanolfan Cymorth i Ddioddefwyr Gogledd Cymru ar 0300 30 30 159 neu **northwales.helpcentre@victimsupport.org.uk**
- I gael mwy o wybodaeth, ewch i fy ngwefan yma

## ***Troseddu Cyfundrefnol***

### ***Pam fod hyn yn bwysig?***

Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod troseddu difrifol a chyfundrefnol yn un o'r bygythiadau mwyaf i ddiogelwch cenedlaethol y DU, ac mae'n costio mwy na £24 biliwn y flwyddyn i'r DU. Mae'r Strategaeth Troseddu Difrifol a Chyfundrefnol Genedlaethol wedi ei hadeiladu ar y fframwaith a ddefnyddiwyd yn y frwydr yn erbyn terfysgaeth, ac mae'n nodi sut y byddir yn manteisio ar gyfleoedd i atal pobl rhag ymwneud â throseddu difrifol a chyfundrefnol, atgyfnerthu gwarchodaeth rhagddo ac ymatebion iddo, ac yn bwysicaf oll, mynd ar ôl y troseddwyr sydd y tu ôl i hyn, eu herlyn ac amharu ar eu gweithgareddau.

Amcangyfrifir mai cost Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol (OCG) ar draws mathau amrywiol o droseddau yw: cyflenwi cyffuriau (£10,7 biliwn), twyll cyfundrefnol (£8.9 biliwn) a throseddau mewnfudo cyfundrefnol
(£1.0 biliwn).

Mae asesiadau bygythiad, risg a niwed wedi amlygu mai Troseddu Cyfundrefnol Haen Uwch a chyflenwi cyffuriau sy'n achosi'r niwed mwyaf i'n cymunedau. Mae cynllunio effeithiol yn cael ei wneud er mwyn taclo Defnydd Troseddol o Arfau Tanio, Cyflenwi a Meddu ar Gyffuriau, Cam-drin ac Ecsbloetio Plant yn Rhywiol, Terfysgaeth ac Eithafiaeth Ddomestig.

### ***Sut byddwn yn gwneud gwahaniaeth?***

- Byddwn yn canolbwyntio ein hadnoddau ar flaenoriaethau'r Asesiad Strategol Cenedlaethol ac Asesiad Strategol yr Heddlu.
- Bydd gennym berthynas waith agos â Titan, yr Uned Troseddu Cyfundrefnol Ranbarthol a'r Asiantaeth Droseddu Genedlaethol.
- Byddwn yn ceisio perswadio Llywodraeth y DU i gynnal lefelau staffio presennol ym Mhorthladd Caergybi.
- Byddwn yn ceisio dylanwadu ar Lu'r Ffiniau a Gorfodaeth Mewnfudo i gynyddu eu gwiriadau ym Mhorthladd Caergybi.
- Byddwn yn parhau i fapio OGCau yng Ngogledd Cymru a sicrhau cyfnewid gwybodaeth effeithiol rhwng partneriaid.
- Gweithio mewn partneriaeth er mwyn amharu ar weithgareddau ar lefel leol - targedu lleoliadau problemus a gweithgareddau sy'n deillio o Droseddu Cyfundrefnol.
- Mynd ar ôl troseddwyr yn ddiflino drwy ddulliau plismona traddodiadol.

### ***Beth fyddwn yn ei gyflawni?***

- Asesiad llawn o'r OCGau sy'n gweithredu yn ein hardal ac ymateb aml haenog er mwyn amharu ar y grwpiau hyn, yn arbennig y rhai hynny sy'n achosi'r risg/niwed mwyaf.
- Cyhoeddi ein llwyddiannau drwy Op Scorpion, a thrwy hynny cynyddu ymwybyddiaeth o'r math hwn o droseddu yng Ngogledd Cymru.
- Defnyddio tactegau amharu effeithiol.
- Ymyrraeth ieuenctid effeithiol pan fo'n hysbys bod pobl ifanc yn gysylltiedig ag OCGau.
- Gwell llwybrau i ddefnyddwyr cyffuriau geisio triniaeth.

## ***Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel***

Mae presenoldeb gweledol yr heddlu yn atal troseddu mewn mannau cyhoeddus, mae'n rhoi sicrwydd i'r rhan fwyaf o'r cyhoedd ac mae'n atgyfnerthu cysylltiad y cymdogaethau â'r heddlu.

Fodd bynnag, fel yr wyf wedi ei nodi yn y Cynllun hwn, erbyn hyn mae mwy o droseddau yn cael eu cyflawni ar-lein nag ar y strydoedd. Yn unol â hynny, mae'n rhaid i ni ganolbwyntio'n hadnoddau sy'n prinhau ar y meysydd hynny sy'n achosi'r bygythiad, risg neu niwed mwyaf.

Fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu, mae hon yn her fawr i mi. Rwyf yn benderfynol y bydd raid i'n hadnoddau sy'n prinhau ganolbwyntio ar feysydd o droseddu difrifol a bregusder, ond eto mae ein cymunedau yn dweud wrtha i dro ar ôl tro eu bod eisiau heddlu gweledol.

Mae darparu gwelededd yn eithriadol o heriol oherwydd y rhesymau a amlinellir uchod ac yn y Cynllun hwn drwyddo draw. Mae'n rhaid i ni wahaniaethu rhwng bod yn weledol a bod yn hygyrch.

Yn ôl archwiliad effeithiolrwydd HMIC diweddar, mae Heddlu Gogledd Cymru yn dda am ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'n rheolaidd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i fesur barn, ac mae hynny yn hysbysu sut mae'n blaenoriaethu ei weithgareddau plismona. Mae gan bobl leol gyfle i gyfrannu at bennu blaenoriaethau plismona ar lefel cymdogaethol a chynorthwyo gyda chanfod yr atebion priodol.

Mae Timau Cymdogaethau Mwy Diogel (SNTau) wedi eu sefydlu ar draws holl ardaloedd yr heddlu, a dylai pobl leol allu cael mynediad at eu gwasanaethau plismona drwy gyfrwng pwyntiau cyswllt cyfarwydd a enwir. Mae yna bwyslais cryf ar PCSOau yn dod i adnabod eu hardal leol drwy gyfrwng patrolau gweledol ar droed, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a digwyddiadau cymunedol. Defnyddir swyddfeydd heddlu 'pop-up' mewn ardaloedd ble ceir materion penodol sy'n achosi pryder, megis Y Rhyl, ble cafwyd problem gydag yfed ar y stryd. Cyflwynwyd cynlluniau ymgysylltu â'r gymuned a chynlluniau rheoli ardal er mwyn cyflwyno sut mae'r heddlu yn bwriadu cyfathrebu â'r cymunedau.

Mae yna hefyd gyfle i Heddlu Gogledd Cymru barhau i ddatblygu ei bresenoldeb digidol ac ar-lein fel ffordd effeithiol o ymgysylltu. Bydd y cyfryngau cynyddol boblogaidd yma yn parhau i ategu dulliau plismona traddodiadol a swyddogion ar y strydoedd - a bydd hynny'n sicrhau y bydd yr heddlu yn fwy hygyrch drwy we-sgwrs, cyfryngau cymdeithasol, a phresenoldeb arall ar-lein.

### ***Sut byddwn yn gwneud gwahaniaeth?***

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i mi sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol am effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein hymgysylltu â phobl leol (Adran 1, (8) (e)).

Er mwyn sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol byddaf yn craffu ar gynlluniau ymgysylltu cymunedol yr Heddlu yn chwarterol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu, ac yn bwysicach fyth, er mwyn sicrhau y gweithredir ar y materion a fynegir gan y cymunedau ac yr adroddir yn ôl arnynt yn briodol.

Sefydlu digwyddiad datrys problemau amlasiantaeth er mwyn rhannu arferion da a datblygu mwy ar yr athroniaeth datrys problemau rhwng yr heddlu a'i bartneriaid.

## ***Beth fyddwn yn ei gyflawni?***

- Cymdogaethau mwy diogel fydd yn teimlo’n fwy diogel.  Bydd lefelau hyder a bodlonrwydd yn parhau i gael eu monitro drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol.

Bydd canfyddiadau fy nghraffu ar y cynlluniau ymgysylltu cymunedol yn cael eu hadrodd i'r Panel Heddlu a Throseddu.


## ***Gwarchod Pobl sy'n Agored i Niwed***

Fel y nodwyd yn gynharach, rwyf wedi dewis Troseddu Cyfundrefnol, Trais Domestig, Cam-drin Rhywiol a Chaethwasiaeth Fodern fel blaenoriaethau yn bennaf oherwydd yr asesiad o fygythiad, risg a niwed.

Fodd bynnag, mae bregusder dioddefwyr y troseddau ffiaidd yma yn bwysig iawn i mi. Mae amddiffyn y cyhoedd yn un o agweddau pwysicaf plismona a fy rôl benodol i. Mae gan yr heddlu, ynghyd â phartneriaid eraill, ddyletswydd i ddiogelu'r rhai sy'n llai abl i amddiffyn eu hunain, oherwydd ymysg pethau eraill, mae pobl sy'n agored i niwed yn wynebu mwy o risg o bosibl o ddioddef troseddau.

Yn genedlaethol mae'r gwasanaeth heddlu yn ehangu ei ddealltwriaeth o freguster ac mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i gadw llygaid ar y darlun esblygiadol hwn ac mae'n rhaid iddo barhau i wneud hynny. Bydd angen i'r Heddlu weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill er mwyn amddiffyn pobl cyn i droseddau gael eu cyflawni.

Ni all yr heddlu ar ei ben ei hun daclo'r meysydd a restrir isod. Am y rheswm hwnnw ni fydd y Prif Gwnstabl yn atebol am gyflawni'r meysydd blaenoriaethol yma. Er enghraifft, efallai nad yw iechyd meddwl yn gysylltiedig ag unrhyw droseddu o gwbl, ond eto mae'n achosi galw mawr am wasanaeth yr heddlu. Yn hytrach na sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol, byddaf yn gweithio gyda'n partneriaid statudol er mwyn sicrhau ymateb effeithiol mewn partneriaeth i bob un o'r meysydd yma a bydd hynny'n rhan o'r Cynllun Diogelwch Cymunedol Rhanbarthol.



## ***Iechyd Meddwl***

### *Pam fod hyn yn bwysig?*

Mae’n amlwg nad yw dioddef â phroblemau iechyd meddwl yn drosedd. Ond er gwaetha'r ffaith elfennol honno, mae’n parhau i achosi galw mawr ar wasanaethau'r heddlu.

Mae yna angen brys i gydnabod y nifer cynyddol o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl sy'n cyflwyno’u hunain i asiantaethau cyfiawnder troseddol fel pobl sy'n agored i niwed.

Yn ei hanfod, mae’n fater sy'n gysylltiedig ag iechyd. Ni ddylai pobl sy’n dioddef â phroblemau iechyd meddwl gael eu cadw yn y ddalfa, a bydd y prif gwnstabl a minnau yn gweithio â’r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod darpariaeth ar gael yn y gwasanaeth iechyd er mwyn sicrhau nad yw neb yn cael ei gadw yn y ddalfa o ganlyniad i ddiffyg darpariaeth addas iddynt.

Mae Arferion Proffesiynol Awdurdodedig newydd, sef canllawiau cenedlaethol i'r heddlu, wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar gan y Coleg Plismona, er mwyn rhoi’r wybodaeth sydd ei angen ar swyddogion yr heddlu i ddatrys sefyllfaoedd sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a sicrhau bod y cyhoedd yn cael y gwasanaeth mwyaf priodol.

Am y to cyntaf bydd hyfforddiant a chanllawiau i’r heddlu yn cynnwys gwybodaeth i gynorthwyo swyddogion pan fyddant yn ymateb i alwadau sy'n gysylltiedig â hunanladdiad a phrofedigaethau. Mae hefyd yn cynnwys digwyddiadau sy’n gysylltiedig â pobl sy'n feddyliol wael, sy’n feddyliol fregus a rhai ag anawsterau dysgu. Dylai'r canllawiau gynorthwyo ein swyddogion i ddarparu ymateb sy’n gyson i'r cyhoedd.

Er gwaetha'r gwelliant hwn i hyfforddiant yr heddlu, rwyf yn bendant nad yr heddlu yw'r rhai a ddylai ymateb i bobl sy’n dioddef â phroblemau iechyd meddwl, er gwaetha gwell ymwybyddiaeth a hyfforddiant mewn perthynas â materion o’r fath.

### *Sut byddwn yn gwneud gwahaniaeth?*

- Gan weithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid eraill, byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o’r anghenion a'r galw sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl er mwyn gwella'r ymateb i bobl â phroblemau iechyd meddwl, yn arbennig ein gallu i adnabod bregusder a thargedu gwasanaethau a chymorth er mwyn helpu pobl mewn argyfwng.
- Codi ymwybyddiaeth o broblemau iechyd meddwl drwy gefnogi ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol.
- Annog dioddefwyr sy'n dioddef â phroblemau iechyd meddwl i riportio troseddau casineb.
- Monitro gweithredu'r concordat gofal argyfwng iechyd meddwl ar draws Cymru.

### *Beth fyddwn yn ei gyflawni?*

- Gostyngiad pellach yn nifer y bobl sy'n destun S.136[2] a gedwir yn y ddalfa

---

[2] Y Ddeddf Iechyd Meddwl yw'r ddeddf y gellir ei defnyddio i fynd â chi i fan diogel gan ddefnyddio adran 136 er mwyn eich asesu am salwch meddwl. Gall yr heddlu ddefnyddio S.136 y Ddeddf i fynd â chi i fan diogel pan fyddwch mewn man cyhoeddus. Gallant wneud hynny os byddant yn credu bod gennych salwch meddwl a’ch bod angen gofal. Gall man diogel fod yn ysbyty neu orsaf yr heddlu.

***Dan gyfyngiadau***

- Gan weithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid eraill, byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o’r anghenion a'r galw sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl er mwyn gwella'r ymateb i bobl â phroblemau iechyd meddwl, yn arbennig ein gallu i leihau bregusder.
- Ail-gydbwyso’r galw er mwyn sicrhau, pan fo'n briodol, bod hyn yn symud oddi wrth yr heddlu ac at y bwrdd iechyd, fel bod unigolion mewn argyfwng yn derbyn y gofal gorau posibl, a bod y gweithiwr proffesiynol priodol yn darparu’r cymorth sydd ei angen.
- Gwell argaeledd darpariaethau addas yn hytrach na chadw yn y ddalfa

***Eisiau gwybod mwy?***

- Gallwch weld cynllun cyflawni Heddlu Gogledd Cymru yma – angen hyperddolen
- I gael mwy o wybodaeth, ewch i fy ngwefan yma
- Cysylltwch â Chanolfan Cymorth i Ddioddefwyr Gogledd Cymru ar 0300 30 30 159 neu **northwales.helpcentre@victimsupport.org.uk**

## ***Plant, pobl ifanc a phobl hŷn***

### *Pam fod hyn yn bwysig?*

Mae anghenion, hawliau a llesiant plant a phobl ifanc yn bwysig eithriadol ym myd plismona.

Byddwn yn ymdrechu i amddiffyn plant rhag niwed, cynorthwyo dioddefwyr a thystion ifanc ac amcanu at leihau ail erledigaeth. Rydym yn amcanu at gadw pobl ifanc yn ddiogel a'u galluogi i fyw bywydau iach, cyfrifol a phositif mewn hinsawdd y gallant ffynnu ynddo.

Rydym yn amcanu at sicrhau bod gan blant a phobl ifanc lais, a byddwn yn ymgysylltu â hwy ac yn gwrando ar eu llais wrth siapio ein gwasanaethau.

Ystyrir bod rhai pobl hŷn yn fregus hefyd, yn arbennig mewn perthynas â thwyll. Fel cymdeithas, rydym yn byw yn hirach, felly mae yna fwy o bobl hŷn sy'n cael eu targedu mewn perthynas â thwyll ar-lein yn benodol, ac mae hynny yn arwain at alw sylweddol ar wasanaethau'r heddlu. Mae angen i bobl hŷn deimlo'n rhan actif o'n cymunedau a pharhau i fod felly, p'un a ydynt yn byw yn eu cartrefi eu hunain neu mewn gofal preswyl. Rwyf eisiau i swyddogion yr heddlu fod yn weledol a rhagweithiol wrth roi sicrwydd i'n cymunedau.

### *Sut byddwn yn gwneud gwahaniaeth?*

- Strategaeth Plant a Phobl Ifanc newydd fydd yn nodi sut fydd fy swyddfa a minnau yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â phlant a phobl ifanc.
- Bydd y strategaeth hefyd yn nodi sut y byddaf yn craffu ar weithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori'r Heddlu mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Byddwn yn edrych ar feysydd penodol o fusnes yr heddlu megis plismona lleol a'u dulliau cyfathrebu hefyd.
- Byddwn yn chwarae ein rhan wrth gefnogi mentrau perthnasol Llywodraeth Cymru megis 'Y 1000 Diwrnod Cyntaf' a Phrofiad Niweidiol yn Ystod Plentyndod.
- Byddwn yn adolygu ein gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori er mwyn sicrhau ein bod yn dilyn arferion amrywiol ac effeithiol er mwyn gwrando ar lais plant, pobl ifanc a phobl hŷn mewn perthynas â materion plismona.
- Gweithio â'r Comisiynydd Pobl Hŷn a'r trydydd sector ar godi ymwybyddiaeth o dwyll a thwyll ar-lein yn benodol.

### *Beth fyddwn yn ei gyflawni?*

- Mwy o hyder mewn plant a phobl ifanc yn Heddlu Gogledd Cymru.
- Ymgysylltu rheolaidd â phobl hŷn.
- Llai o bobl ifanc yn cael eu dwyn i'r system cyfiawnder troseddol.
- Lai o bobl ifanc yn dod yn ddioddefwyr troseddau.

***Eisiau gwybod mwy?***

- Gallwch weld cynllun cyflawni Heddlu Gogledd Cymru yma – angen hyperddolen
- Gallwch weld strategaeth Plant a Phobl Ifanc DPCC yma
- Ewch i wefan Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yma

# ***Cyffuriau***

### ***Pam fod hyn yn bwysig?***

Mae fy safbwynt ynghylch cyffuriau wedi ei ddogfennu'n helaeth a ffurfiodd ran o fy maniffesto pan oeddwn yn ymgeisio yn yr etholiad. Ni ddylid anghyfreithloni pobl sy'n gaeth i gyffuriau, maent yn agored i niwed a dylid eu trin felly. A siarad yn blaen, collwyd y frwydr yn erbyn cyffuriau beth amser yn ôl ac mae angen ymagwedd newydd. Mae gwledydd megis Portiwgal yn arwain y ffordd mewn perthynas â hyn ac yn esiampl o beth ellir ei gyflawni gyda dull system gyfan wedi ei ategu gan arweiniad cryf a meddwl arloesol.

Gan weithio gyda chynghorwyr yn Wrecsam, hoffwn beilota 'ystafell ffics' yn yr ardal ble gall pobl sy'n gaeth i gyffuriau chwistrellu eu hunain yn ddiogel, yn lanwaith ac o dan oruchwyliaeth feddygol.

Rwyf hefyd o blaid cyfreithloni canabis at ddibenion meddygol. Mae'r drafodaeth ynghylch polisi cyffuriau wedi symud yn ei blaen yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diweddar, ond mae'r farn y dylid cyfreithloni canabis at ddibenion meddygol nid yn unig yn cael ei harddel gen i, ond mae'n cael ei harddel hefyd gan nifer o Gomisiynwyr o bob gogwydd gwleidyddol.

Mae Grŵp Seneddol yr Holl Bleidiau wedi galw am gyfreithloni'r cyffur ar gyfer defnydd meddygol ac mae yna ymchwil sylweddol sy'n dangos bod ei ddefnyddio yn sylweddol fuddiol i ddioddefwyr MS a mathau eraill o salwch a bod o leiaf 30,000 o bobl yn ei ddefnyddio'n ddyddiol.

Gall salwch fod yn brofiad unig, yn enwedig os yw eich meddyginiaeth yn anghyfreithlon, a siawns ei bod yn annerbyniol bod pobl sy'n ceisio lleddfu eu dioddefaint yn cael eu anghyfreithloni am ddefnyddio canabis i drin eu salwch.

Mae ymddangosiad Sylweddau Seicoactif Newydd (NPSau) a'u lefel cyffredinedd cymharol anhysbys a'u heffaith ar droseddau yn parhau i fod yn achos pryder. Byddaf yn gweithio â Bwrdd Cynllunio'r Ardal er mwyn canfod maint y broblem yn lleol a sicrhau bod gwasanaethau cymorth effeithiol wedi eu sefydlu.

Rwyf yn bendant y dylai'r Prif Gwnstabl orfodi cyfraith y wlad ac na ddylai fod yn atebol am weithredu'r dull cywir, yn fy marn i, o daclo'r broblem gyffuriau. Mae'n fater iechyd cyhoeddus a dylid ei drin felly. Rwyf yn credu y dylai

- Pobl sy'n gaeth i gyffuriau gael eu trin fel cleifion yn hytrach na throseddwyr.
- Byddai gwell mynediad i ystafelloedd ffics ac ystafelloedd triniaeth â chymorth heroin yn lleihau troseddu meddiangar a nifer y nodwyddau a adewir yn ein cymunedau.
- Dylai'r rhai sydd angen canabis at ddibenion meddygol allu cael mynediad iddo'n gyfreithlon.

**Eisiau gwybod mwy?**

- Gallwch weld cynllun cyflawni Heddlu Gogledd Cymru yma – angen hyperddolen
- Cynllun Bwrdd Cynllunio'r Ardal yma

## ***Trosedd Casineb***

### *Pam fod hyn yn bwysig?*

Mae trosedd casineb yn unrhyw drosedd sydd wedi'i ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail nodweddion personol y dioddefwr, megis anabledd, hil, oedran, rhyw, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsrywiol y dioddefwr.

Beth bynnag fo'r rheswm, mae'n hollol annerbyniol. Gall ddinistrio bywydau, codi ofn a difrodi gwead cymunedau. Mae'n rhaid i ddioddefwyr troseddau casineb gael yr hyder i riportio'r troseddau i'r heddlu, yn gwybod i sicrwydd y byddant yn cael eu trin yn briodol a gyda chydymdeimlad gan wasanaeth yr heddlu.

Yn anffodus nid yw hynny'n wir ar hyn o bryd. Mae troseddau casineb yn parhau i fod yn guddiedig ac nid yw'n cael eu riportio'n ddigonol. Yn anffodus mae yna nifer o resymau pam fod troseddau casineb yn amlwg ar hyn o bryd. Mae canlyniad refferendwm yr UE, rhethreg genedlaethol ynghylch mewnfudo yn ogystal â phryderon yr oedd nifer o gymunedau yn eu teimlo eisoes yn rhai o'r pethau sydd wedi cyfuno i gynyddu ofn a thensiwn mewn cymunedau.

Er fy mod yn croesawu cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb (sy'n cael ei chynnal ym mis Hydref bob blwyddyn), yn syml nid yw hynny'n ddigon a dylid gwneud mwy drwy gydol y flwyddyn er mwyn codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb. Nawr yw'r amser i roi sylw i droseddau casineb ac annog riportio ymysg dioddefwyr ac atal y rhai sy'n cyflawni'r troseddau.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r dyletswyddau cydraddoldeb a roddir ar ysgwyddau cyrff y sector cyhoeddus. Rwyf i a Heddlu Gogledd Cymru yn rhwymedig i'r ddeddfwriaeth hon. Mae gennym gyfrifoldeb o dan y Ddeddf i gyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol gan ddangos ein bod yn hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb wrth weithredu gwasanaethau plismona drwyddo draw yng Ngogledd Cymru.

Mae ein Cydgynllun Cydraddoldeb Strategol yn gynllun pedair blynedd sy'n amlinellu'r heriau mewn perthynas â chydraddoldeb wrth blismona Gogledd Cymru a sut ydym yn bwriadu wynebu a goresgyn y rhain gyda'n gilydd. Diweddarwyd y cynllun drwy gyhoeddi fersiwn newydd ym mis Hydref 2015. Mae'r Cynllun yn darparu'r ffocws strategol diweddaredig ar gyfer cydraddoldeb yn Heddlu Gogledd Cymru hyd at 2019.

### *Sut byddwn yn gwneud gwahaniaeth?*

- Darparu ymatebion effeithiol i droseddau casineb, a byddaf yn gweithio â'r Prif Gwnstabl a phartneriaid er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cymorth priodol yn cael eu darparu i ddioddefwyr troseddau casineb ar draws Gogledd Cymru.
- Craffu ar gwynion a gyflwynir i'r Adran Safonau Proffesiynol mewn perthynas â dioddefwyr troseddau casineb.
- Monitro ac asesu ein hymagwedd at y Ddeddf Cydraddoldeb ar draws pob maes busnes gan sicrhau cydraddoldeb a thegwch yn y sefydliad drwyddo draw ac ar draws ein blaenoriaethau plismona.
- Sicrhau ein bod yn ymgysylltu a chyfathrebu â phobl Gogledd Cymru a'n bod yn gwneud hynny mewn ffordd hygyrch a chynhwysol.
- Gwella hyder aelodau'r gymuned mewn perthynas â riportio troseddau casineb.

### *Beth fyddwn yn ei gyflawni?*

***Dan gyfyngiadau***

- Mwy o droseddau casineb yn cael eu riportio
- Mecanweithiau cymorth priodol i ddioddefwyr pob trosedd casineb, beth bynnag fo'u nodweddion.
- Gwelliant pellach yn ystadegau ansawdd gwasanaeth yn achos dioddefwyr troseddau casineb.
- Adnoddau cymorth penodedig parhaus yn y Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr.

***Eisiau gwybod mwy?***

- Gallwch weld cynllun cyflawni Heddlu Gogledd Cymru yma – angen hyperddolen
- I gael mwy o wybodaeth, ewch i fy ngwefan yma
- Cysylltwch â Chanolfan Cymorth i Ddioddefwyr Gogledd Cymru ar 0300 30 30 159 neu **northwales.helpcentre@victimsupport.org.uk**

## ***Gofynion Plismona Strategol***

Mae yna rai agweddau o blismona sy'n gofyn am ymateb cenedlaethol, gan gydbwyso gofynion lleol a chenedlaethol. Mae Gofynion Plismona Strategol (SPR) yn nodi'r bygythiadau cenedlaethol a'r galluoedd plismona cenedlaethol priodol sydd eu hangen i oresgyn y bygythiadau hynny. Mae'n ofynnol bod y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn rhoi sylw dyledus i'r SPR.

Yn ddiweddar mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi cyflwyno deddfwriaeth yr oedd ei wir angen fydd yn rhoi i'r DU rai'r o'r pwerau grymusaf yn y byd i daclo bygythiad cynyddol terfysgaeth ryngwladol ac eithafiaeth ddomestig. Bydd hyn yn atgyfnerthu pwerau oedd yn bodoli i amharu ar allu pobl i deithio dramor i ymladd, lleihau'r risg maent yn ei achosi pan maent yn dychwelyd, a brwydro yn erbyn yr ideoleg danategol sy'n bwydo, ategu ac yn sancsiynu terfysgaeth.

Yn ychwanegol at wrthderfysgaeth, mae rhai risgiau newydd allweddol yn cynnwys:

- Deall bregusder unigolion a grwpiau sy'n eu cymell i ymwneud â Therfysgaeth ac Eithafiaeth Ddomestig.
- Anhrefn cyhoeddus na chynllunnir.
- Parhad busnes - risgiau yn ymwneud â'r hinsawdd megis llifogydd, colli pŵer, digwyddiadau seiber etc.

## ***Ystadau a Chyfleusterau***

Mae'r buddsoddiad sylweddol yn ystadau'r heddlu yn parhau yn dilyn llofnodi contract gwaith adeiladu yn ddiweddar ar gyfer y Cyfleuster Rheoli a Chystodaeth Dwyreiniol yn Llai, fydd yn costio £21.5 miliwn ac a fydd yn agor ym mis Awst 2018. Yn ychwanegol at y cyfleuster newydd yn Llai bydd gorsaf heddlu newydd yn cael ei sefydlu yng nghanol tref Wrecsam yn yr hen adeilad Oriel ger neuadd y dref er mwyn sicrhau bod plismona gweledol yn cael ei gynnal. Bydd y ddau brosiect yma yn darparu cyfleusterau modern yn ardal ddwyreiniol yr Heddlu yn lle'r hen orsaf heddlu ym Modhyfryd, Wrecsam. Hefyd, mae'r orsaf heddlu newydd yn Llandudno yn cael ei hadeiladu a bydd yn agor ym mis Tachwedd 2017.


Mae'r gorsafoedd tân a heddlu ar y cyd yn Nefyn a Thywyn yn adlewyrchu'r gweithio mewn partneriaeth rhwng y gwasanaethau brys a bydd yr ystâd yn parhau i gael ei hadolygu yn ystod 2017 er mwyn canfod mwy o gyfleoedd i gyd-leoli gorsafoedd heb effeithio ar y gwasanaeth plismona a ddarperir mewn cymunedau.

## ***Cyllid ac Adnoddau***

Er mwyn dangos y berthynas bwysig rhwng yr heddlu a'r amcanion troseddu a nodir yn y cynllun hwn, a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion hynny, mae crynodeb o'r sefyllfa ariannol yn dilyn.

O'r holl gyllid o £143.271m sydd gennyf yn 2017/18, byddaf yn dyrannu cyllideb net 0 £141.162m i'r Prif Gwnstabl ar gyfer cyflawni gwaith plismona yng Ngogledd Cymru.

Dyraniad Cyllideb y Comisiynydd yn 2017/18




Mae'r Heddlu yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol. Yn ychwanegol at yr arbedion blynyddol o £26.939m a grëwyd ers 2010/11, bydd £2.686m arall yn cael ei arbed yn 2017/18, ac mae yna gynlluniau ar droed i arbed "2.238 arall erbyn 2021/22.

## ***Cyllido Heddlu Gogledd Cymru***

Rwyf yn derbyn cyllid o ddwy brif ffynhonnell er mwyn cyllido Heddlu Gogledd Cymru, fy Nghronfa Diogelwch Cymunedol a fy swyddfa.

Yn 2017/18 bydd grantiau'r llywodraeth yn cyllido 50.08% o fy nghyllid, a bydd y gweddill, sef 49.92%, yn dod o'r dreth cyngor.


Ar hyn o bryd mae Fformiwla Cyllido'r Heddlu, sy'n penderfynu faint yr ydym yn ei dderbyn mewn grantiau gan y llywodraeth, yn cael ei adolygu, ac mae hynny yn creu ansicrwydd sylweddol o 2018/19 ymlaen.

Mae manylion llawn am gyllideb 2017/18 a'r tybiaethau gweithredol ar gyfer blynyddoedd diweddarach i'w cael yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

## ***Ar beth mae'r arian yn cael ei wario***

Mae'r Cynllun Heddlu a Throseddu hwn yn cynyddu'r ffocws ar droseddau ffiaidd megis trais domestig, trais rhywiol a chaethwasiaeth fodern. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso hynny gyda'r angen i barhau gwasanaethau plismona lleol; ac er mwyn sicrhau bod gan yr holl unigolion sy'n gweithio yn y rheng flaen ddigon o gymorth y swyddfa gefn er mwyn gwneud y mwyaf o'r amser maent yn gallu ei dreulio yn cyflawni gwasanaethau'r heddlu.

## Dyraniad Cyllideb Heddlu Gogledd Cymru




Er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol, byddaf yn cadw at yr egwyddorion canlynol:

- Byddaf yn targedu adnoddau er mwyn cyflawni fy nyletswyddau statudol a chyflawni fy amcanion heddlu a throseddu;
- Byddaf yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn y ffordd fwyaf effeithiol;
- Byddaf yn sicrhau bod gan swyddogion a staff yr adnoddau priodol a bod ganddynt wasanaethau cymorth digonol er mwyn gwneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael iddynt i ddarparu gwasanaethau plismona.

Er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n briodol, byddaf yn monitro incwm a gwariant drwy gydol oes y Cynllun Heddlu a Throseddu hwn. Bydd proffiliau gwerth am arian HMIC yn fy nghynorthwyo gyda'r gwaith hwn, drwy fy ngalluogi i gymharu Heddlu Gogledd Cymru a heddluoedd eraill.

## ***Buddsoddiad Cyfalaf***

Er mwyn gwireddu fy addewidion yn y Cynllun Heddlu a Throseddu hwn, mae'n hanfodol buddsoddi mewn adeiladau, cerbydau ac offer sy'n galluogi swyddogion i blismona'n effeithiol.

Ers dod yn Gomisiynydd Heddlu a Throseddu, rwyf wedi prynu 301 o gitiau fideo ar y corff ychwanegol, sydd nawr yn galluogi i bob swyddog a PCSO ddefnyddio'r dyfeisiadau hyn tra'u bod ar ddyletswydd. Profwyd bod y dyfeisiadau yma yn arbennig o ddefnyddiol yn dilyn digwyddiadau o drais domestig.

Y prosiect mwyaf arwyddocaol o gynllunnir ar gyfer y dyfodol agos yw ail-leoli'r orsaf heddlu yn Wrecsam, ac adeiladu cyfleusterau swyddfa a chystodaeth newydd yn Llai.

## ***Cronfa wrth gefn a chydnerthedd***

Fel un o'r gwasanaethau brys, ar brydiau gall yr heddlu'n ddirybudd wynebu un neu ragor o weithgareddau graddfa fawr sy'n arwain at faich ariannol sylweddol. Er mwyn delio â'r risg honno a lleihau effaith digwyddiadau o'r fath ar blismona o ddydd i ddydd, mae angen cadw arian sylweddol wrth gefn. Mae hynny'n sicrhau y gellir pennu ymatebion argyfwng yn ôl anghenion plismona yn hytrach na fforddiadwyedd.

Hefyd, gellir defnyddio arian wrth gefn ar sail un-tro er mwyn lliniaru'n rhannol effeithiau unrhyw newidiadau yn y dyfodol i grantiau'r llywodraeth.

Mae'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol (£5.189m) yn cael ei defnyddio i ariannu anghenion llif arian dydd i ddydd ac er mwyn darparu cydnerthedd rheng flaen. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhoi manylion llawn am fy nghronfa wrth gefn y gellir ei defnyddio, ac unrhyw ddefnydd a gynllunnir.

## ***Craffu a safonau***

Fel comisiynydd heddlu a throseddu, mae craffu ar berfformiad yr Heddlu yn un o fy nyletswyddau pwysicaf. Fy nyletswydd trosfwaol yw darparu heddlu effeithiol ac effeithlon, sy'n darparu gwerth am arian ac sy'n lleihau troseddu. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd honno mae gennyf system dryloyw ar gyfer craffu a sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol am ddarparu gwasanaethau plismona yng Ngogledd Cymru.

Rwyf yn craffu ar gyflawni'r cynllun hwn drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol. Drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol (y Bwrdd) rwyf yn craffu ar berfformiad yr Heddlu yn erbyn y cynllun heddlu a throseddu, yn monitro perfformiad plismona a'r gyllideb blismona. Y Bwrdd yw fy mhrif fforwm ar gyfer gwneud penderfyniadau, ac mae pob papur perthnasol a gynhyrchir a phob penderfyniad arwyddocaol a wneir yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan.

Rwyf yn parhau i dderbyn adroddiadau annibynnol gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC). Mae'r gofynion a roddir ar ysgwyddau'r Heddlu gan HMIC yn achos pryder gwirioneddol i mi. Tra bod cyllidebau heddluoedd wedi cael eu torri, mae'r HMIC wedi cael mwy o gyllid. Mae'r Swyddfa Gartref yn sgimio holl gyllidebau heddluoedd er mwyn ariannu meysydd megis HMIC a'r Comisiwn Cwynion Heddlu Annibynnol.

Rwy'n credu y byddai cymunedau Gogledd Cymru yn cael braw o wybod am yr amser, ymdrech ac adnoddau sylweddol iawn y mae'n rhaid i Heddlu Gogledd Cymru ei fuddsoddi er mwyn paratoi ar gyfer arolygon HMIC ac ymateb iddynt.

Yn 2015 arolygwyd safonau cofnodi troseddau Heddlu Gogledd Cymru. Bu i HMIC ganfod bod Heddlu Gogledd Cymru ymysg y 5 pum heddlu sy'n perfformio orau yng Nghymru a Lloegr, gyda chyfradd gydymffurfio o 94%. Er hynny, mae'r HMIC yn mynnu mwy, ac mae hynny i gyd yn golygu mwy o gostau, ac mae'n rhaid i mi ofyn i mi fy hun, pam?

Yn 2014, cyflwynwyd **cod moesau** ar gyfer y gwasanaeth heddlu. Mae'n nodi'r safon ymddygiad sy'n ddisgwyliedig o swyddogion a staff sy'n gweithio i'r gwasanaeth heddlu. Rwyf yn ystyried hynny wrth graffu ar berfformiad Heddlu Gogledd Cymru. Fel cyn swyddog yr heddlu a chyn gynrychiolydd Ffederasiwn yr Heddlu, rwyf yn credu bod y rhan helaeth o swyddogion a staff yr heddlu yn cyflawni eu dyletswyddau gydag uniondeb rhagorol ac yn unol â'r safonau uchaf.

Petai gweithredoedd ac ymddygiad swyddogion a staff yn disgyn yn is na'r safonau hynny, mae gwiriadau a mesurau wedi eu sefydlu yn Heddlu Gogledd Cymru sy'n sicrhau yr ymdrinnir â'r materion hynny yn effeithiol. Mae fy Nirprwy a minnau yn craffu ar sut mae'r Heddlu yn delio â chwynion ac yn cyfarfod â'r Adran Safonau Proffesiynol yn rheolaidd i glustnodi meysydd sy'n peri pryder.

## Perfformiad ac Atebolrwydd

### Eich profiadau

Fel y dangosais yn achos y broses ymgynghori gynhwysfawr mewn perthynas â'r Cynllun hwn, mae gwrando ar safbwyntiau'r cyhoedd ynghylch plismona a materion yn ymwneud â throseddau yng Ngogledd Cymru yn hanfodol o ran fy ngalluogi i fonitro effaith y cynllun hwn a sicrhau bod fy mlaenoriaethau yn adlewyrchu blaenoriaethau'r cyhoedd.

Byddaf yn ymgysylltu â'r cyhoedd, y trydydd sector, y gymuned fusnes a'n partneriaid yn rheolaidd. Bydd yr adborth o'r ymgysylltu hwnnw yn fy ngalluogi i gael mewnwelediad real i berfformiad yr Heddlu a fy swyddfa. Byddaf yn ystyried canfyddiadau'r ymgysylltu hwnnw er mwyn hysbysu sut y byddaf yn craffu ar yr Heddlu, a byddaf yn parhau i ailymweld â'r blaenoriaethau a nodir yn fy Nghynllun.

Rwyf wedi nodi'r ffordd y bydd y Prif Gwnstabl yn adrodd i mi ar ddarpariaeth plismona a'r ffordd y bydd ei berfformiad yn cael ei fesur.

Y brif ffordd o gyflawni'r amcanion hynny fydd drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol (y Bwrdd), craffu gan fy Nirprwy a fy swyddfa, ac archwiliadau mewnol ac allanol. Mae mwy o wybodaeth am waith y Bwrdd ar gael yn fy ngwefan.

### Panel Heddlu a Throseddu

Mae gan y Panel Heddlu a Throseddu awdurdod statudol i adolygu fy Nghynllun Heddlu a Throseddu a chraffu ar fy ngweithgareddau fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Drwy fy Nghynllun Cyhoeddi rwyf yn amcanu at gyhoeddi gwybodaeth fydd yn cynorthwyo'r Panel a'r cyhoedd mewn perthynas â dilyn fy ngwaith a fy ngweithgareddau. Yn ychwanegol at ymateb i'w geisiadau am wybodaeth a'i gwestiynau, rwyf yn darparu adroddiadau cyfnodol ar fy ngweithgareddau fel comisiynydd a fy nghynnydd yn erbyn y cynllun hwn. Fy ethos yw y bydd pob darn o wybodaeth yn cael ei gyhoeddi oni bai fod yna reswm pendant dros beidio â gwneud hynny.

### Y Cydbwyllgor Archwilio

Mae'r Prif Gwnstabl a minnau wedi sefydlu cydbwyllgor archwilio, a'i swyddogaeth yw cynorthwyo a herio gweithgareddau penodol a ymgymerir gan Heddlu Gogledd Cymru a fy swyddfa, a darparu cynigion adeiladol ar gyfer gwella. Mae mwy o wybodaeth am waith y cydbwyllgor archwilio ar gael yn fy ngwefan.

### Comisiynu

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn fy ngalluogi i gomisiynu gwasanaethau yn uniongyrchol gan ddarparwyr y tu allan i wasanaeth yr heddlu. Mae'r Ddeddf a Chod Ymddygiad Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref yn egluro y bydd pob grant, a chyllid a dalwyd o'r blaen i Awdurdodau'r Heddlu, yn ogystal â ffynonellau cyllido partneriaethau penodol, yn cael eu talu'n uniongyrchol i gomisiynwyr heddlu a throseddu. Felly, mae'r arian o'r ffynonellau a restrir isod nawr yn cael eu talu'n uniongyrchol i gomisiynwyr:

- Cyllid Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau (Swyddfa Gartref)
- Grant Diogelwch Cymunedol (Swyddfa Gartref)
- Grant Troseddau Ieuenctid ac Atal Camddefnyddio Sylweddau (Swyddfa Gartref)

***Dan gyfyngiadau***

- Incwm Deddf Enillion Troseddau
- Incwm Deddf Gwerthu Eiddo a Ganfyddir
- Mentrau Cynhyrchu Incwm Penodol
- Ffynonellau cyllid eraill o gronfeydd y comisiynwyr

Gall comisiynu gwasanaethau olygu prynu gwasanaethau, ymrwymo i gytundebau neu gontractau cydweithio, darparu grantiau, alinio cyllidebau â phartneriaid, cronni cyllidebau a datblygu cyllidebau cymunedol.

Mae comisiynu effeithiol yn dibynnu ar y cylch comisiynu craidd a ddangosir isod;

| | |
|---|---|
| **DEALL** | Gweithio gyda phartneriaid er mwyn canfod anghenion lleol ac arferion gorau tra'n adnabod yr adnoddau sydd ar gael yn lleol ac ymdrechu i alinio gwasanaethau. |
| **CYNLLUNIO** | Penderfynu sut ydym ni yn unigol, ac mewn partneriaeth, yn ymdrin ag anghenion yn effeithiol, effeithlon a theg. |
| **GWNEUD** | Gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau gwell deilliannau. |
| **ADOLYGU** | Monitro sut y darperir y gwasanaeth yn erbyn deilliannau disgwyliedig. |

Un o fy nghyfrifoldebau yw sicrhau bod fy nghyllidebau yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yng Ngogledd Cymru yn derbyn y gofal gorau posibl er mwyn eu helpu drwy eu taith bersonol fel y gallant ymdopi ag effaith troseddau, a gwella.

Byddaf yn parhau i ddyrannu arian a chomisiynu gwasanaethau sydd wedi'u halinio'n agos â chyflawni fy amcanion fel yr amlinellir hynny yn y cynllun hwn.

Ar gyfer y deuddeg mis blaenorol bu i fy rhagflaenydd gomisiynu'r gwasanaethau canlynol

- Canolfan Cymorth i Ddioddefwyr yng Ngogledd Cymru
- Cynghorwyr trais rhywiol annibynnol (ISVA)
- Cynghorwyr trais rhywiol i blant a phobl ifanc (CYPSVA)
- Cynghorwyr trais domestig annibynnol (IDVA)

Mae'n amlwg i mi bod y gwasanaethau yma yn darparu gwasanaethau allweddol sy'n ategu fy mlaenoriaethau plismona newydd a byddaf yn parhau i'w comisiynu ar gyfer 2017/18.

Nid yw'r broses bresennol o ddyrannu cyllid i gomisiynwyr heddlu a throseddu yn flynyddol yn hwyluso cynllunio hirdymor yn ddigonol. Pan hysbyswyd Comisiynwyr am eu grantiau ar gyfer 2017/18, bu i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd ein hysbysu y byddai hysbysiad 2018/19 yn cael ei ategu gan gyllid dangosol am dair blynedd arall. Rwyf yn croesawu'r cam blaengar hwn fydd yn gymorth mewn perthynas â chyllido hirdymor, ac a fydd yn fy ngalluogi i, pan fyddaf yn gallu gwneud hynny, i roi sicrwydd i'r gwasanaethau yr wyf yn eu hariannu.

Un o fy nghyfrifoldebau statudol yw dyfarnu grantiau troseddu ac anrhefn. Ar hyn o bryd mae fy swyddfa yn darparu cyllid i'r partneriaethau diogelwch cymunedol ar draws Gogledd Cymru. Mae hwn yn gytundeb a etifeddais pan gefais fy ethol, ac mae'n un nad wyf yn ei gefnogi. Nid yw un corff cyhoeddus yn rhoi cyllid i gorff cyhoeddus arall i gomisiynau gwasanaethau yn effeithiol nac effeithlon.

Pan fo'n bosibl byddaf yn comisiynu gwasanaethau yn uniongyrchol, gan sicrhau bod yr holl wariant yn cael ei anelu at gyflawni fy mlaenoriaethau plismona.

**Diweddariad ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd**
**13 Mawrth 2017**
***Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru***

**Cyflwyniad**

Dyma fy adroddiad i'r Panel ar gyfer y cyfnod o 17 Rhagfyr i 20 Chwefror 2017.

Nid yw'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r gofynion adrodd statudol penodol. Mae'n ymwneud yn bennaf â swyddogaeth ehangach y panel o dan adran 28 (6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gennyf fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) ar gyfer gogledd Cymru, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i mi fel Comisiynydd yn hynny o beth. Hefyd, yn unol ag adran 13 (1) o'r Ddeddf, mae'n darparu'r Panel â'r wybodaeth y disgwylir i'r Comisiynydd o fewn rheswm ei chyfrannu i'r Panel i gyflawni ei swyddogaethau (y ceisiadau penodol).

**Adran Un: Fy ngwaith craffu ar Heddlu Gogledd Cymru**

Rwyf yn craffu ar yr Heddlu trwy fesur ei berfformiad yn erbyn pedwar amcan y Cynllun Heddlu a Throsedd (y Cynllun) a'r mesurau a nodir yn y Cynllun. Y prif gyfrwng yr wyf yn cyflawni'r swyddogaeth honno yw'r Bwrdd Gweithredol Strategol (SEB) a gadeirir gennyf ac y mae'r Prif Gwnstabl a'i uwch swyddogion yn eistedd arno. Mae cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol Strategol yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan.

**Amcan 1 yr Heddlu a Throsedd: Gweithio mewn partneriaethau effeithiol**

*I ddwyn yr heddlu i gyfrif, byddaf yn monitro dros gyfnod y Cynllun:*

- Lefel aildroseddu, gan gynnwys aildroseddwyr risg uchel o drais domestig;
- Gweithredu'r cynllun rhanbarthol cam-fanteisio'n rhywiol ar blant;
- Gweithredu'r concordat iechyd meddwl Cymru gyfan;
- Datblygu a gweithredu Cynllun Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel i gefnogi'r cynllun hwn.

Mae cydweithio mewn partneriaethau effeithiol yn helpu i gyflawni fy nhair blaenoriaeth arall, atal troseddu, cyflwyno ymateb effeithiol a lleihau niwed a'r risg o niwed. Mae gweithio mewn partneriaeth yn galluogi ymatebion i fod yn fwy effeithiol a pharhaol yn eu budd i'r gymuned nag y byddent fel arall. Mae hefyd yn lleihau'r galw, a thrwy hynny'n cynyddu gallu staff rheng flaen o'r holl awdurdodau cyfrifol. Mae gwaith partneriaeth effeithiol yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig, i rannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth a rhannu adnoddau lle bo'r angen i gyflawni nod cyffredin.

Bydd aelodau'r panel yn cofio bod Heddlu Gogledd Cymru wedi cynnal adolygiad effeithlonrwydd yn ddiweddar, a gwelwyd mai'r ddau alwad uchaf ar yr Heddlu yw materion sy'n ymwneud ag ymholiadau ynghylch rhywun ar goll o'u cartref ac iechyd meddwl gwael. Dim ond mewn partneriaeth y gellir ymateb yn effeithiol i'r materion difrifol hyn. O ganlyniad, mae rhan o fy ngweithgareddau craffu yn cynnwys sefydlu sut mae'r Heddlu yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Rwyf yn parhau i weithio gyda phartneriaid drwy Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru, Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau, y Byrddau Diogelu (ar gyfer plant ac oedolion) a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, i

nodi ffyrdd o weithio gyda'n gilydd yn fwy effeithiol yn y cyfnod ariannol heriol hwn. Mae gwaith yn parhau i gyflwyno canolfan gomisiynu ar y cyd ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gan sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r buddion ar gyfer ein gwasanaethau a gomisiynir a bod yr arian yn cyrraedd y rheng flaen, lle mae ei angen fwyaf.

Mae gweithrediad concordat iechyd meddwl Cymru gyfan wedi'i oruchwylio gan Fwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru gyda chynrychiolydd o BIPBC yn arwain y darn hwn o waith. Mae ffrydiau gwaith wedi'u llunio gyda'r nod o ddatblygu cynlluniau i ddarparu'r Concordat. Mae'r datblygiadau ers yr adroddiad diwethaf yn cynnwys y diwygiad a'r gwelliant a gynlluniwyd i hyfforddiant Iechyd Meddwl ar gyfer gweithwyr newydd yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol newydd yr heddlu. Credir unwaith y bydd y pecyn hyfforddiant wedi'i ddatblygu ymhellach y bydd yn addas i'w ddarparu i garfan ehangach o fewn Heddlu Gogledd Cymru.

Bydd aelodau'r panel yn cofio o'r adroddiad diweddaru diwethaf bod dadansoddwr wedi'i ddyrannu i Wasanaeth Brysbennu ar y Stryd yn Wrecsam i weld buddion y rhaglen. Yn anffodus ni fydd gwerthusiad llawn y rhaglen ar gael tan fis Ebrill 2017. Paratowyd yr adolygiad dros dro ym mis Hydref 2016 a oedd yn dangos bod y gwasanaeth brysbennu wedi ymateb i 157 o ddigwyddiadau rhwng mis Rhagfyr 2015 a Hydref 2016. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd 12 person eu harestio o dan adran 136, gyda 4 yn derbyn triniaeth gan y tîm brysbennu cyn eu cymryd i'r ddalfa.

Mae Partneriaeth Barnardo's, a ariannwyd am 4 blynedd o Gronfa Arloesi'r Heddlu, wedi bod yn allweddol i'n hymateb aml-asiantaeth i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac i sicrhau bod y plant diamddiffyn sydd yn wynebu'r perygl mwyaf o ddioddef Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn cael eu diogelu. Ers dechrau'r bartneriaeth, mae'r ymarferwyr wedi cynnal nifer sylweddol o Gyfweliadau Dychwelyd i'r Cartref i'r Plant sy'n Derbyn Gofal a/neu'r rhai sydd mewn perygl o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, sydd wedi'u hadrodd fel plant coll ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. Dros y tair blynedd diwethaf cynhaliwyd 869 o gyfweliadau o'r fath.

Mae'r cyfweliadau hyn wedi arwain at well dealltwriaeth o'r risgiau mwn achosion unigol, wedi galluogi asiantaethau i weithio gyda'i gilydd i ddiogelu'r unigolyn ifanc dan sylw ac i erlyn y cyflawnwyr.

Oherwydd annibyniaeth staff Barnardo's a phwysigrwydd y ffactor hwn i'r bobl ifanc y maent yn ymgysylltu â nhw, mae'r cyfweliadau hyn wedi gwella ein dealltwriaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn sylweddol. Mae gennym ddarlun o gudd-wybodaeth ddatblygedig ar draws gogledd Cymru yn seiliedig ar y datgeliadau a ddarparwyd gan y bobl ifanc diamddiffyn hyn.

Mae cyllid y Gronfa Arloesi ar gyfer y bartneriaeth yn dod i ben ym mis Mawrth 2017, ac rydym yn pryderu y bydd diwedd y bartneriaeth gyda Barnardo's yn arwain at fwlch yn ein hymateb aml-asiantaeth, ac yn golygu y bydd plant yn wynebu perygl uwch o fod yn ddioddefwyr cam-fanteisio'n rhywiol ar blant.

Ysgrifennodd y Prif Gwnstabl at aelodau grŵp gweithredol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant i ofyn am gyllid er mwyn galluogi'r gwaith i barhau. Yn anffodus gwrthodwyd y cais ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ni nodwyd unrhyw gyllid pellach a bydd y bartneriaeth yn dod i ben ar 31 Mawrth 2017.


**Amcan 2 yr Heddlu a Throsedd: Atal Trosedd**

*I ddwyn yr heddlu i gyfrif o ran yr amcan hwn, byddaf yn monitro dros gyfnod y Cynllun:*


- Lefel cyfanswm y troseddau a gofnodwyd
  - Lefel y troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr
  - Lefel y troseddau a ddatrysir, yn ôl math
  - Lefel yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd
  - Lefel byrgleriaeth ddomestig
  - Nifer y Swyddogion Heddlu Arbennig, gwirfoddolwyr a chadetiaid

Nid yw'r mesurau hyn yn dargedau perfformiad. Eu pwrpas yw fy nghynorthwyo i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif. Mae'r wybodaeth a gyflwynir isod yn cael ei defnyddio yn fy ngwaith craffu ar yr amcanion penodol hyn.

Mae'r siartiau isod, a gynhyrchwyd gan y Prif Gwnstabl, yn dangos nifer yr holl droseddau a gofnodwyd a throseddau sy’n seiliedig ar ddioddefwyr a gofnodir bob 3 mis ers mis Ebrill 2010.




Ffigur 1: Yr holl droseddau a gofnodwyd yn fisol hyd at fis Rhagfyr 2016 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)




Ffigur 2: Troseddau yn seiliedig ar y dioddefwr a gofnodwyd yn fisol hyd at fis Rhagfyr 2016 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

Cefais wybod gan y Prif Swyddogion yng nghyfarfod diweddaraf y Bwrdd Gweithredol Strategol ym mis Chwefror y bu cynnydd mewn galw ar yr heddlu dros gyfnod y Nadolig, sydd wedi gostwng ychydig ym mis Ionawr. Roedd cyfanswm lefel y troseddau a gofnodwyd wedi cynyddu o 7.3% yn ystod wythnos 44 gyda 34,734 o droseddau yn y flwyddyn hyd yn hyn o gymharu â 32,361 yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

Gosododd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr Heddlu Gogledd Cymru yn y 10fed safle allan o 43 ar gyfer yr holl droseddau gan eithrio twyll ym mis Medi 2016. Fe welodd yr Heddlu gynnydd mewn deuddeg categori gan gynnwys trais yn erbyn person, lladrata o siop a throseddau rhyw. Bu gostyngiad yn yr holl droseddau byrgleriaeth, troseddau dwyn a throseddau cyffuriau.

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol:**




Cafwyd cynnydd cyffredinol o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol o 10.4% o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (wythnos 44). Hyd yn hyn bu 19,755 o ddigwyddiadau o gymharu 17,889 y llynedd.

Boddhad defnyddwyr ar gyfer dioddefwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yw 81.8%.

**Nifer y Swyddogion Heddlu Arbennig, gwirfoddolwyr a chadetiaid gweithredol:**

Mae nifer y swyddogion arbennig yn parhau'n eithaf tebyg i'r adroddiad diwethaf i'r panel sef 199. Fodd bynnag, derbyniwyd 18 swyddog arbennig newydd ym mis Ionawr ac mae derbyniad arall wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth.

Mae swyddogion arbennig wedi bod yn hynod weithgar eleni gan weithio 57,000 o oriau yn 2016 o gymharu â 34,000 o oriau yn 2015. Mae hyn yn gyfwerth â chael 32 swyddog llawn amser yr heddlu.

Ar 1 Rhagfyr gweithredwyd Uned Diogelwch y Ffordd y swyddogion arbennig ac roedd ganddynt rôl allweddol yn ymgyrch ymwybyddiaeth yfed a gyrru Heddlu Gogledd Cymru dros y Nadolig.

**Amcan 3 yr Heddlu a Throsedd: Darparu ymateb effeithiol**

Y pedwar mesur o’r amcan hwn fel y nodir yng Nghynllun 2016/17 yw:

- Amseroedd ymateb cyfartalog presenoldeb mewn argyfyngau heddlu
- Galwadau nad ydynt yn argyfwng yn cael eu dosbarthu fel 'galwadau wedi’u gadael'
- Y targed arbedion ar gyfer 2016/17 yn cael eu cyflawni
- Yr adborth a dderbyniwyd drwy arolygon dioddefwyr, yn enwedig lefelau boddhad

Mae'r amser ymateb cyfartalog yn parhau i fod yn eithaf sefydlog yn 18.8 munud a bu cynnydd o 2358 o ddigwyddiadau a nodwyd fel ymateb ar unwaith.

Mae’r gyfradd galwadau a gaiff eu gadael ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys yn destun craffu rheolaidd, ac ar hyn o bryd yn sefyll o amgylch 4.7%, sy'n gynnydd bychan o 4.2%.  Mae'r cynnydd ychydig yn llai na'r disgwyl oherwydd y cyflwynwyd protocol newydd THRIVE (bygythiad, niwed, risg, archwilio, diamddiffynedd, ymgysylltu).

Byddaf yn parhau i fonitro cyfradd y galwadau a gaiff eu gadael, ond rwy’n credu'n gryf na all llwyddiant y system 101 gael ei fesur gan y cyflymder y mae'r galwadau'n cael eu hateb yn unig, ond hefyd drwy effeithiolrwydd y cyswllt cychwynnol, yn enwedig adnabod yr elfen ddiamddiffyn.

Mae Llinell Gymorth Iechyd Meddwl Cymru yn awr yn weithredol gyda'r staff yn gallu trosglwyddo galwadau priodol rhwng yr asiantaethau. Mae hyn nid yn unig yn darparu gwasanaeth effeithiol i'r cyhoedd, ond mae hefyd yn darparu cyngor clinigol i swyddogion a staff yn yr ystafell reoli wrth ddelio â'r rhai sy'n dioddef salwch meddwl.

Mae'r heddlu wedi rhoi cynlluniau ar waith i gyflwyno Cerdyn Cadwa'n Ddiogel Cymru yng Ngogledd Cymru. Bydd Cerdyn Cadwa'n Ddiogel Cymru yn agored i unrhyw un yn ardal yr heddlu gydag Anableddau Dysgu, anghenion Iechyd Meddwl, Dementia neu anghenion Cyfathrebu. Dyluniwyd y cynllun er mwyn gwneud pobl yn fwy ymwybodol o'u diogelwch personol, i annog adrodd am droseddau a cheisio cymorth os oes angen.

**Amcan 4 yr Heddlu a Throsedd: Lleihau niwed a'r risg o niwed**

*Mae gan y Cynllun 2016/17 bedwar mesur ar gyfer penderfynu pa mor effeithiol yw perfformiad yr Heddlu o ran yr amcan hwn. Sef:*

- Nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol (KSI) mewn gwrthdrawiadau ar y ffordd
- Nifer y cyflawnwyr sy'n cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a arestiwyd
- Nifer yr achosion o bobl sydd â delweddau anweddus o blant a erlynwyd
- Nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt

Mae nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol (KSI) ar ein ffyrdd wedi gostwng 21.3% o flwyddyn i flwyddyn o 273 i 215.

Mae damweiniau traffig ffordd angheuol wedi cynyddu o 23 i 28 yn y flwyddyn adrodd hon.

Mae damweiniau angheuol neu ddifrifol ar feiciau modur hefyd wedi gostwng o 17.7% o 70 i 58 yn rhannol oherwydd yr ymateb gweithredol parhaus o dan Weithred Darwen.

Roedd yr ymgyrch dros y Nadolig a gynhaliwyd drwy fis Rhagfyr ar draws Gogledd Cymru yn canolbwyntio ar yfed a gyrru a gyrru ar gyffuriau. Cynhaliwyd cyfanswm o 9,448 prawf anadl yn ystod y cyfnod hwn. Arweiniodd yr ymgyrch at 95 yn cael eu harestio am yfed a gyrru a 60 yn cael eu harestio am yrru ar gyffuriau.

Mewn perthynas â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant, cafodd 109 o gyflawnwyr eu harestio'r flwyddyn blismona hon hyd yma (2016/17) ac fe gafodd 322 o achosion o ddelweddau anweddus o blant eu canfod (sy'n cynrychioli cynnydd o 117.6% y flwyddyn hyd yn hyn).

Mae lefelau adrodd am Drosedd Casineb ychydig yn uwch ar gyfer y flwyddyn gyda 414 o Droseddau Casineb wedi'u hadrodd yn erbyn 365 ar gyfer yr un cyfnod y llynedd. Mae ffigurau Trosedd Casineb Anabledd yn dangos y cynnydd uchaf. Mae gwaith yn parhau i ymgysylltu â grwpiau cymunedol i wella cofnodi ac i atal troseddwyr.

**Yr heddlu a throsedd yn eich ardal chi**

Mae gwefan y swyddfa gartref http://www.police.uk yn rhoi gwybodaeth ystadegol am droseddau a digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n benodol i god post.

## Adran Dau: Diweddariadau Cyffredinol

Yn yr adran hon rwy'n darparu crynodeb byr i'r Panel ynglŷn â'r prif bethau y mae fy Nirprwy a finnau wedi'u gwneud ers cyfarfod diwethaf y Panel.

**Cyffuriau**

Bu sawl datblygiad o ran fy ymchwil i ddad-droseddu cyffuriau. Ym mis Chwefror teithiais gyda'r BBC i Bortiwgal i recordio rhaglen am fanteision dad-droseddu cyffuriau. Cyflwynodd yr ymweliad i Bortiwgal y posibilrwydd o newid barn y cyhoedd o gosbi defnyddwyr cyffuriau i'w trin. Os yw rhywun yn cael ei ddal gydag unrhyw gyffur yn eu meddiant ar gyfer defnydd personol yn Portiwgal, maent yn cael eu hasesu ac yn derbyn triniaeth os oes angen. Dim ond un enghraifft o'r gwaith cadarnhaol a wneir yn y wlad yw hyn.

Yn ogystal â fy nhaith i Bortiwgal, rwyf hefyd wedi trefnu digwyddiad ar y cyd gyda Transform Drugs ac Anyone's Child a gynhelir yn Wrecsam ym mis Mai. Bydd y digwyddiad yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd gyflwyno eu pryderon am gyffuriau a gobeithiwn y byddwn yn newid canfyddiadau pobl ynglŷn â dad-droseddu cyffuriau.

**Ymgysylltu a Chyfathrebu**

Rhan o fy rôl yw darparu gwybodaeth a galluogi'r gymuned i ymgysylltu â phlismona.

Ers y diweddariad diwethaf, rwyf wedi cyfarfod gyda'r canlynol (yn ogystal â swyddogion a staff Heddlu Gogledd Cymru);

- Rhun ap Iorwerth AC
- Prif Weithredwyr Cyngor Sir Ynys Môn
- Ymweld â Charchar EM Berwyn
- Ymweld â Phentre Peryglon
- Kelly MaGuire o Relate Cymru Choose to Change
- Siaradwr Gwadd yng Nghlwb Rotari Wrecsam
- Liz Saville-Roberts AC
- Cyfarfod gyda'r Tîm Rheoli Troseddwyr Integredig
- Ian Barrow, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ac ACC Jeremy Vaughan o Heddlu De Cymru
- Siaradwr Gwadd ar gyfer Undeb Ffermwyr Cymru
- Cyngor Sir Wrecsam ynglŷn â Chynllun Canol y Dref
- Canolfan Ferched Gogledd Cymru
- Pwyllgor Archwilio Cymunedau Cyngor Sir Ddinbych
- Ffederasiwn yr Heddlu ynglŷn â Phrentisiaethau Lefel Uwch ar gyfer Swyddogion Cymru
- Cyfarfod cyflwyno gyda Dr James Davies AS
- Mynychu Diwrnod Ymgysylltu Blynyddol NCA/PCC yn Llundain

- Cyflwyniad i Fyfyrwyr Cymdeithas Troseddeg ym Mhrifysgol Wrecsam
- Cynghorydd Wrecsam ynglŷn â Chyfiawnder Ieuenctid
- Prif Weithredwr Cyngor Sir Y Fflint ynglŷn â chyllid CSP
- Ymweld â Champions House, Grŵp Gweithredu Adfer
- Ymweld ag Ysgol John Bright, Llandudno
- Cynnal Symposiwm Merched yn y Ddalfa

Rwyf hefyd wedi mynychu'r cyfarfodydd canlynol:

- Cyfarfod Chwarterol PCC a CEX y Gogledd Orllewin
- Cyfarfod chwarterol gyda'r Adran Safonau Proffesiynol
- Cynnal Digwyddiad Briffio ar gyfer ACau ac ASau Gogledd Cymru
- Grŵp Aur ar Adnoddau a Chyllid yr Heddlu yn Llundain
- Digwyddiad Cronfa Trawsnewid Trais yn Erbyn Merched yn Llundain
- Rhwydwaith Genedlaethol Gwrth Fasnachu mewn Pobl a Chaethwasiaeth Fodern yn Llundain
- Cyfarfod Cyffredinol APCC yn Llundain
- Bwrdd Cynllunio Ardal
- Cyfarfod Cyngor Tref Cei Connah
- Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol
- Grŵp Cymunedau Mwy Diogel
- Adolygiad o Fformiwla Dosbarthu Grantiau Craidd: Grŵp Sector Uwch yn Llundain

Ers cyfarfod diwethaf y Panel, yn ogystal â chyfarfod gyda chynrychiolwyr y gymuned, partneriaid ac aelodau'r cyhoedd, rwyf i a fy Nirprwy wedi cynnal nifer o weithgareddau cyfryngau allweddol. Maent yn cynnwys:

**Comisiynydd Heddlu yn beirniadu "annhegwch"  ariannu carchar**

**Arian a gymerwyd gan droseddwyr yn hybu cynllun campfa**

**Arian oddi wrth droseddwyr yn gymorth i bobl ifanc**

**Pennaeth yr heddlu yn galw am sicrwydd o ran diogelwch porthladd**

**Troseddwyr seiber o Rwsia yn ymosod ar fusnesau Gogledd Cymru**

**Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Ann Griffith**

Gofynnodd y Panel gael ei hysbysu am waith y Dirprwy Gomisiynydd. Mae'n parhau i ymrwymo'n llawn i fy rhaglen waith brysur iawn, fel y nodir isod:

- Cyfarfod gyda Prif Weithredwyr Cyngor Môn
- Ymweld â Charchar EM Berwyn
- Cyfarfod gyda Kelly MaGuire o Relate Cymru Choose to Change
- Mynychu sesiwn friffio gan swyddfa'r OPCC i ACau ac ASau.
- Cyfarfod gyda Chyfarwyddwr BAWSO
- Mynychu'r Grŵp Plismona Cymru Gyfan yn Llandrindod.
- Mynychu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yng Nghaerdydd.

- Cyfarfod cyflwyno gyda'r Tîm Rheoli Troseddwyr Integredig
- Ymweld â'n Hadrannau Mewnol
- Cyfarfodydd dros y ffôn gyda Dirprwy Gomisiynwyr Yr Heddlu A Throsedd ar gyfer De a Chanolbarth Cymru ynglŷn â: Cronfa Trawsnewid Gwasanaethau VAWG
- Cyfarfod gydag Arweinydd Swyddog Polisi i drafod Strategaeth Plant a Phobl Ifanc Swyddfa'r Heddlu a Throsedd
- Cyfarfod gydag aelodau o Barnardo's Cymru
- Mynychu digwyddiad Diwrnod Ymgysylltu / APCC NCA yn Llundain
- Mynychu Lansiad canolfan arbenigedd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
- Cadeirio'r Cyd-gyfarfod chwe misol gyda'r IPCC a Heddlu Gogledd Cymru

**Comisiynu**

Wrth gomisiynu gwasanaethau i gefnogi cyflawni fy Nghynllun yr Heddlu a Throsedd, mae gennym dair cronfa ar wahân.

1. **Gwasanaethau Cyfiawnder Cymunedol Integredig**

Ynghyd â'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) rwy'n ariannu'r Gwasanaethau Cyfiawnder Cymunedol Integredig (CJIS) yng Ngogledd Cymru. CJIS yw'r enw cyfunol ar gyfer nifer o wasanaethau, gan gynnwys: -

- Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau
- Atgyfeiriad Arestio
- Dewisiadau Anodd (Wrecsam)
- Rhybudd Amodol (gwarediad yr Heddlu)
- Gofyniad Adsefydlu Cyffuriau (DRR)
- Gofyniad Triniaeth Alcohol (ATR)

Mae mwy o wybodaeth am CJIS ar fy ngwefan.

2. **Grant Gwasanaethau Dioddefwyr**

Yn 2016/17 defnyddiwyd y Grant uchod i gomisiynu'r gwasanaethau canlynol

- Canolfan Gymorth i Ddioddefwyr
- Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol
- Ymgynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol

Bydd Trais Domestig a Thrais Rhywiol yn parhau i fod yn flaenoriaethau o fewn fy Nghynllun yr Heddlu a Throsedd ac felly bydd y gwasanaethau hyn yn parhau i gael eu comisiynu yn 2017/18.

Mae'r Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr yn parhau i ddarparu lefel ragorol o ofal a chefnogaeth ar gyfer dioddefwyr yng Ngogledd Cymru gyda chefnogaeth arbenigol ar gyfer dioddefwyr Troseddau Casineb a dioddefwyr sy'n dioddef Iechyd Meddwl gwael. Ar fy nghais, bydd y VHC hefyd yn darparu gweithiwr gofal arbenigol ar gyfer dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern o fis Ebrill 2017 ymlaen, yr ardal gyntaf i wneud hynny yng Nghymru a Lloegr.

3. **Grantiau Diogelwch Cymunedol**

Mae cyfanswm o £165,000 o gyllid ar gael i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar draws Gogledd Cymru. Bydd y Panel yn cofio o'r trafodaethau blaenorol nad oeddwn i, fel corff cyhoeddus, o blaid rhoi cyllid i gorff cyhoeddus arall i gomisiynu gwasanaethau. O ran effeithlonrwydd, cynigais y dylid comisiynu'r gwasanaethau'n uniongyrchol.

Nid oeddwn yn cefnogi defnyddio'r cyllid hwn tuag at swyddi partneriaethau craidd. Ar ôl derbyn adborth gan ein partneriaid rwyf wedi cytuno i ohirio'r newidiadau hyn am chwe mis.

**Hyder a Moeseg**

Mae fy swyddfa'n cael ei chynrychioli ar Bwyllgor Safonau Hyder a Moeseg yr Heddlu. Diben y pwyllgor hwn yw adolygu gweithrediad yr heddlu o'r Cod Moeseg ac i ystyried ansawdd y gwasanaeth a materion hyder cyhoeddus mewn perthynas â Heddlu Gogledd Cymru.

Trwy fynychu'r pwyllgor gall fy swyddfa fonitro rheolaeth yr Heddlu o'r Cod Moeseg a'i driniaeth a datblygiad o faterion ansawdd gwasanaeth a hyder.

**Craffu yn Gyffredinol**

Yn ogystal â'r gweithgareddau a amlinellwyd yn Adran 1 yr adroddiad hwn rwy'n parhau i graffu Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys (hysbysiadau, rhybuddion cosb benodedig a datrysiadau adferol ac ati) a gyflwynir gan yr Heddlu ac rwyf wedi fy nghynrychioli ar Banel Craffu Aml-asiantaeth Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys sy'n cyfarfod yn chwarterol ac yn adrodd i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yr wyf yn ei gadeirio.

Sefydlwyd Panel Craffu Diogelu Pobl Ddiamddiffyn yn ddiweddar ac rwyf hefyd yn cael fy nghynrychioli ar y Panel hwnnw. Diben y Panel hwn yw cyfarfod bob deufis i drafod meysydd thematig Diogelu Pobl Ddiamddiffyn (Trais a Throseddau Rhyw Difrifol, Cam-drin Domestig, Trais yn seiliedig ar Anrhydedd, Priodas Dan Orfod, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Stelcio / Aflonyddu Iechyd Meddwl, Pobl ar Goll, a Cham-drin Plant ac ati) i samplu'r holl feysydd ar sail strwythur treigl. Disgwylir i aelodau'r Panel rannu'r themâu allweddol a'u dysgu gyda chydweithwyr yn yr adrannau amrywiol ac er mwyn cynorthwyo â hyn, mae crynodeb o ganfyddiadau'r panel ar gael drwy'r cadeirydd ar ffurf 'gwersi a ddysgwyd'.

Mae fy swyddfa hefyd yn craffu cydymffurfiaeth yr Heddlu â Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref trwy fynychu cyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr Cofnodi Troseddau'r Heddlu.

Mae gwaith craffu strategaethau ymgysylltu Plismona Lleol yn parhau ac yn cael ei adrodd i'r Panel yn chwarterol.

**Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol**

Mae darparu Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol yn un o fy nyletswyddau statudol. Ar hyn o bryd mae gennyf dîm o 18 o wirfoddolwyr sy'n mynychu ystafelloedd y ddalfa yn rheolaidd a heb rybudd yng Ngogledd Cymru i ymweld â'r rhai sy'n cael eu cadw gan yr Heddlu.

Rwy'n parhau i recriwtio ymwelwyr dalfeydd annibynnol, er fy niweddariad diwethaf i chi rwyf wedi recriwtio 5 gwirfoddolwr pellach i gynnal yr ymweliadau hyn. Gan fod cyfnod swydd ymwelwyr dalfeydd wedi'i gyfyngu i 3 tymor o 3 blynedd, mae recriwtio ymwelwyr dalfeydd yn ymarfer parhaus.

Adolygiad Blynyddol Dalfeydd 2015-16

**Diweddariad HMIC**

Ers cyfarfod mis Rhagfyr mae Heddlu Gogledd Cymru wedi derbyn dau adroddiad PEEL sef Cyfreithlondeb ac Effeithlonrwydd. Rwyf wedi cyflwyno fy mhryderon i'r Ysgrifennydd Cartref a Wendy Williams o'r HMIC ynglŷn â'r radd 'angen gwelliant' ar gyfer yr arolwg Cyfreithlondeb. Roeddwn yn teimlo bod y radd hon yn annheg gan ei bod yn seiliedig ar fater a gafodd ei ddatrys cyn yr arolwg.

Roedd canlyniad yr arolwg effeithlonrwydd ar y llaw arall yn gadarnhaol gyda chanfyddiadau'r HMIC yn dangos bod Heddlu Gogledd Cymru yn dda am atal troseddau, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chadw pobl yn ddiogel.

Hoffwn hysbysu'r panel fy mod wedi cysylltu â Syr Thomas Winsor i awgrymu bod yr HMIC yn arolygu'r heddlu yn seiliedig ar eu darpariaeth o Gynllun Heddlu a Throsedd eu Comisiynydd. Teimlaf y byddai'n llawer gwell ar gyfer yr heddlu a'r cymunedau pe bai'r HMIC yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Comisiynydd ac nid ar y canllawiau cyffredinol llym y maent yn eu dilyn ar hyn o bryd.

**Gordon Anglesea**

Bydd y Panel yn ymwybodol o'r straeon yn y wasg yn ddiweddar fy mod wedi dechrau'r broses o fforffedu pensiwn Mr Anglesea. Mae Rheoliad K5 o Reoliadau Pensiwn yr Heddlu 1987 yn nodi y gall yr Awdurdod Goruchwylio Pensiwn fforffedu pensiwn. Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn caniatáu i awdurdod yr heddlu benderfynu ar fforffediad pan fo aelod o'r heddlu wedi'i ganfod yn euog o drosedd a gyflawnwyd mewn cysylltiad â'u gwasanaeth fel aelod o'r heddlu sydd wedi'i ardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel un sy'n achosi niwed difrifol i fuddion y Wladwriaeth neu yn debygol o arwain at golli hyder difrifol yn y gwasanaeth cyhoeddus.

Bydd y Panel yn ymwybodol bod Mr Anglesea wedi marw cyn i'r broses ddod i ben a chyn derbyn cytundeb yr Ysgrifennydd Cartref. Roedd hyn yn golygu bod ei wraig wedi derbyn pensiwn gwraig weddw o 50 y cant. Nid oes cynsail yn y gyfraith i ddal y 50 y cant hwnnw yn ôl yn enwedig gan nad yw'r buddiolwr wedi'u canfod yn euog o unrhyw drosedd. Mae hysbysiad o benderfyniad mewn perthynas â'r mater hwn wedi'i gyhoeddi ar fy ngwefan.

**Penderfyniadau**

Fy mwriad yw darparu crynodeb o'r holl benderfyniadau a wnaed gennyf a chrynodeb o'r rheswm pam y gwnaed y penderfyniad i'r Panel. Hyderaf y bydd hyn yn gymorth i'r Panel i gyflawni ei ddyletswydd o graffu fy mhenderfyniadau.

Mae'r tabl isod yn nodi'r penderfyniadau allweddol a wnaed o 1 Tachwedd 2016 hyd at 23 Chwefror 2017.

| Dyddiad | Teitl | Crynodeb |
|---|---|---|
| 30.11.16 | Fforffedu pensiwn | Dechrau'r broses o fforffedu pensiwn y cyn Uwch-arolygydd Gordon Anglesea yn dilyn ei gollfarn o 4 achos o ymosodiad anweddus. |
| 16.12.16 | Fforffedu pensiwn | Yn dilyn marwolaeth Mr Anglesea, penderfynu ildio'r broses o |

| | | |
|---|---|---|
| | | fforffedu ei bensiwn. Byddai hyn yn erbyn cyfiawnder naturiol gan nad yw Mr Anglesea yn gallu cyflwyno sylwadau. Bydd Mrs Anglesea yn derbyn 50% o bensiwn yr heddlu ei diweddar ŵr. |
| 09.02.17 | Praesept | Cynyddu praesept yr heddlu o 3.79% ar gyfer 2017/18 |
| 16.02.17 | Rheoli Trysorlys | Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. |
| 22.02.17 | ICVA | Parhau â'n haelodaeth o ICVA ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae ICVA yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth gyhoeddus o hawliau, iechyd a lles pobl a gedwir yn y ddalfa |
| 23.02.17 | Cytundeb Darpariaeth Cyfryngau | Yn dilyn ymarfer tendr agored a gynhaliwyd gan Heddlu Gogledd Cymru i ddyfarnu'r cytundeb Darpariaeth Cyfryngau i Ceidiog Communications am dair blynedd. |
| 23.02.17 | Darpariaeth Gwerth Cymdeithasol | Cyflogi ymgynghorydd i ddatblygu Polisi Gwerth Cymdeithasol ar gyfer fy swyddfa a Heddlu Gogledd Cymru er mwyn sicrhau gwerth cymdeithasol y gwasanaethau yr ydym yn eu comisiynu. Mae'r gwasanaethau yn ofynnol am gyfnod o 18 mis. |

**Gohebiaeth.**

Ffigurau gohebiaeth o 1 Rhagfyr 2016 hyd 31 Ionawr 2017

| **Categori Gohebiaeth** | **Nifer** |
|---|---|
| Adborth penodol ynglŷn â’r gwasanaeth plismona | *5* |
| Adborth cyffredinol ynglŷn â’r gwasanaeth plismona | 2 |
| Cwynion a atgfeiriwyd at PSD | 3 |
| Materion staff | 0 |
| Gohebiaeth gyffredinol | 362 |

# Adroddiad gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

**Teitl:** **Diweddariad ar Gyllideb 2016/17 (ar 31 Rhagfyr 2016)**

**Cyfarfod:** **Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 13 Mawrth 2017**

**Awdur:** **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Nod y papur hwn yw darparu diweddariad i aelodau'r panel ynglŷn â chyllideb blismona gogledd Cymru ar 31 Rhagfyr 2016 (mis 9) a darparu gwybodaeth gryno am gyllideb 2017/18.

## 2. Argymhellion

2.1 Nodi'r adroddiad.

## 3. Diweddariad ar Gyllideb 2016/17

3.1 Cafodd cyllideb refeniw net Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ei chymeradwyo gan y Panel Heddlu a Throsedd ar 25 Ionawr 2016 am £141.067 miliwn. Mae hyn yn cynnwys cyllideb net o £0.741 miliwn ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, ac £1.166 miliwn net ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir. Ar 31 Gorffennaf 2016, cyfanswm y rhagamcan hyd at ddiwedd y flwyddyn oedd tanwariant net o £1.440 miliwn.

3.2 Disgwylir i'r gwariant fod yn weddol debyg i'r gyllideb. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys nifer o ragamcanion o orwariant a thanwariant. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw:

- Gweithwyr – rhagwelir tanwariant o £0.398 miliwn.
  Dyma effaith net nifer o ffactorau, y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw cyflog swyddogion yr heddlu (tanwariant a ragwelir o £0.262 miliwn) a chyflog staff yr heddlu (tanwariant a ragwelir o £0.635 miliwn). Mae hwn yn gyfuniad o swyddi gwag (y bwriedir eu llenwi) ac arbedion o ganlyniad i famolaeth a thâl salwch. Mae'r tanwariant yn cael ei wrthbwyso gan orwariant amcanol mewn taliadau goramser (£0.277 miliwn) a thaliadau pensiwn uniongyrchol (£0.316 miliwn). Mae'r gyllideb ar gyfer taliadau pensiwn uniongyrchol yn seiliedig ar chwe ymddeoliad ar sail afiechyd bob blwyddyn, ac roedd chwech yn chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae ymddeoliadau ar sail afiechyd yn cael eu cymeradwyo gan y Prif Gwnstabl unwaith y mae achos wedi'i ystyried drwy broses Adolygiad Achos ffurfiol a thystiolaeth annibynnol wedi'i derbyn gan ymarferydd meddygol sy'n nodi nad yw'r swyddog yn gallu cyflawni'r dyletswyddau gofynnol craidd dan Reoliadau Pensiynau'r Heddlu. Felly, mae'r rhagamcaniad wedi cynyddu'r gwariant tebygol ar achosion pellach yn ystod gweddill y flwyddyn.

- Costau Safleoedd – rhagwelir tanwariant o £0.216 miliwn
  Mae hyn yn bennaf oherwydd tanwariant mewn costau ynni.

- Cludiant – rhagwelir tanwariant o £0.463 miliwn
  - Costau Gwasanaethu – rhagwelir tanwariant o £0.278 miliwn. Mae rheolaeth weithredol o gontractau gwasanaethu a chynnal a chadw cerbydau yn cyfrannu at y tanwariant hwn a ragwelir.
  - Costau rhedeg – rhagwelir tanwariant o £0.246 miliwn. Mae costau disel yn 7.6% yn is na'r adeg hon y llynedd. Fodd bynnag, er bod prisiau olew wedi gostwng, maent yn awr yn codi eto, ac mae'r bunt wedi gwanhau yn sgil refferendwm ar yr Undeb Ewropeaidd. Felly, bydd angen monitro hyn yn ofalus yn ystod y flwyddyn.

- Cyflenwadau a Gwasanaethau – rhagwelir gorwariant o £0.173 miliwn
  - Mae hyn yn welliant ar y gorwariant a adroddwyd yn flaenorol (£0.239 miliwn)
  - Rhan fawr o'r gorwariant hwn yw cyflenwadau a gwasanaethau eraill (gorwariant amcanol o 0.217 miliwn). Mae llawer o hyn yn ymwneud â gwariant a ariennir gan grant, ac felly bydd yn cael ei gyfateb gan gynnydd mewn incwm.

- Arian wrth Gefn
  - Mae'r cyllidebau wrth gefn yn cael eu trosglwyddo i gyllidebau eraill fel y mae'r anghenion yn cael eu nodi. Dyma sydd wedi digwydd yn y gorffennol.
  - Yn ychwanegol at y cyllidebau wrth gefn y cytunwyd arnynt cyn dechrau'r flwyddyn ariannol, mae nifer o arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2017/18 wedi'u gwireddu yn gynnar. Mae hyn wedi rhyddhau £1.252 miliwn yn 2016/17.
    - Mae'r swm wedi'i drosglwyddo i'r gyllideb "Rheoli Newid", a fydd yn cael ei defnyddio i ariannu newidiadau sy'n galluogi effeithlonrwydd neu arbedion yn y dyfodol. Mae prosiectau i'w hariannu yn y modd hwn wedi'u nodi, felly mae'r gwariant cysylltiedig yn cael ei ragamcanu yn y gyllideb.
    - Bydd y gyllideb rheoli newid yn cael ei throsglwyddo ymhellach i gyllidebau priodol fel y caiff eitemau unigol o wariant eu nodi.

3.3 Rydym ar hyn o bryd yn rhagamcanu incwm ychwanegol o £0.544 miliwn. Mae hyn o ganlyniad i gynnydd yng nghyllid grant Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Grant Gostwng Cyflymder Llywodraeth Cymru, sydd wedi cynyddu oherwydd adnoddau pellach i gwrdd â'r lefelau staffio y cytunwyd arnynt ac i brynu cerbydau newydd.

3.4 Ar hyn o bryd mae rhagamcan taliadau cyfalaf, taliadau wrth gefn (ac eithrio rheoli newid) a'r gronfa diogelwch cymunedol yn unol â'r gyllideb.

3.5 Rhoddir crynodeb o'r cyllidebau a'r rhagamcanion isod.

| | Cyllideb Wreiddiol £'000 | Cyllideb 31 Rhagfyr 2016 £'000 | Gwir 31 Rhagfyr 2016 £'000 | Rhagamcan hyd Ddiwedd y Flwyddyn £'000 | Rhagamcan o'r Amrywiant £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | |
| Gweithwyr | 122,370 | 122,274 | 90,536 | 121,876 | (398) |
| Safleoedd | 7,696 | 7,996 | 5,952 | 7,788 | (208) |
| Cludiant | 4,942 | 4,638 | 2,787 | 4,175 | (463) |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 19,635 | 19,962 | 15,347 | 20,135 | 173 |
| Taliadau Dyledion a Chyfraniadau at Gyfalaf | 1,504 | 1,614 | - | 1,614 | - |
| Arian wrth Gefn (gweler uchod) | 800 | 1,652 | - | 1,652 | - |
| Cronfa Diogelwch Cymunedol | 1,166 | 1,166 | 27 | 1,166 | - |
| **Cyfanswm Gwariant** | **158,113** | **159,302** | **114,649** | **158,406** | **(896)** |
| | | | | | |
| **Incwm** | **(17,133)** | **(17,933)** | **(10,349)** | **(18,477)** | **(544)** |
| | | | | | |
| **Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | **87** | **(302)** | **-** | **(302)** | **-** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y Gwariant Net** | **141,067** | **141,067** | **104,300** | **139,627** | **(1,440)** |
| | | | | | |
| **Cyllid** | | | | | |
| Grantiau | (72,745) | (72,745) | (54,969) | (72,745) | - |
| Praesept | (68,322) | (68,322) | (51,242) | (68,322) | - |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(141,067)** | **(141,067)** | **(106,211)** | **(141,067)** | **-** |
| | | | | | |
| **Tanwariant net** | | | | | **(1,440)** |

3.6 Mae'r uchod yn cynnwys incwm a gwariant yn ymwneud â'r grant Gwasanaethau Dioddefwyr gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae £820,323 wedi'i ddyrannu i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mae £770,469 wedi'i ymrwymo ar gyfer comisiynu gwasanaethau dioddefwyr, gyda'r gweddill yn cyfrannu at ein costau cysylltiedig. Mae gwasanaethau a gomisiynir yn cynnwys: Canolfan Cymorth Dioddefwyr, IDVA a ISVA.

3.7 Hefyd wedi'i gynnwys uchod mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Y gyllideb ar gyfer y flwyddyn yw £741,000. Ar 31 Rhagfyr roedd y gwariant yn £608,519 a'r alldro a ragwelir yn £792,633. O'r gorwariant amcanol, mae £45,737 yn wariant ar gyngor cyfreithiol, ac mae traul bellach ers y dyddiad hwnnw. Bydd hyn yn cael ei ariannu gan gronfa gyfreithiol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu.

## 4. Cyfalaf

4.1 Y rhaglen gyfalaf wreiddiol ar gyfer 2016/17 oedd £17.048 miliwn yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Gan ystyried y llithriant o £3.304 miliwn a mân ychwanegiadau a dileadau, fe all hyn gynyddu i £20.065 miliwn. Fodd bynnag, bydd peth o'r gwariant hwn yn cael ei wario mewn blynyddoedd i ddod ac, ar ôl ail-broffilio, y gyllideb ar gyfer 2016/17 yw £11.499 miliwn.

4.2 Mae'r rhan fwyaf o'r rhaglen ystadau yn ymwneud â dim ond tri chynllun, sydd wedi'u nodi yn unigol yn y tabl: Llai Wrecsam, Canol Tref Wrecsam a Llandudno:

- Llai Wrecsam
- Canol Tref Wrecsam
- Llandudno

4.3 Rhoddir crynodeb o'r cyllidebau cyfalaf a'r rhagamcanion isod.

| Cynllun | Gwariant wedi'i gario drosodd £'000 | Cyllideb 2016/17 (ailbroffiliwyd) £'000 | Gwariant 2016/17 £'000 | Cyllideb - Blynyddoedd i ddod £'000 | Cyfanswm cyllideb £'000 | Gwariant hyd at 31.01.17 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfleuster newydd Llai Wrecsam | 2,894 | 3,890 | 630 | 14,366 | 21,150 | 1,993 |
| Cyfleuster canol tref Wrecsam | 63 | 300 | 6 | 1,438 | 1,801 | 69 |
| Adeilad newydd Llandudno | 450 | 1,576 | 414 | 724 | 2,750 | 864 |
| Ystadau eraill | 1,886 | 692 | 107 | 1,075 | 3,653 | 1,993 |
| Cerbydau ac offer | 5,045 | 1,839 | 484 | 7,025 | 13,909 | 5,529 |
| TG a Chyfathrebu | 2,376 | 3,202 | 2,079 | 6,544 | 12,122 | 4,455 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf** | **12,704** | **11,499** | **3,720** | **31,172** | **55,385** | **16,434** |

## 5. Cyllideb 2017-2018

5.1 Cafodd cynigion cyllidebol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd eu cymeradwyo gan y Panel Heddlu a Throsedd ar 31 Ionawr 2017.

5.2 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cynnig pennu'r cyllidebau net canlynol ar gyfer 2017/18:

| | |
|---|---|
| Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd | £0.792 miliwn |
| Cronfa Diogelwch Cymunedol | £1.262 miliwn |
| Heddlu | £141.163 miliwn |
| Cyfanswm cyllideb net | £143.217 miliwn |

5.3 Mae cyllid y Tîm Troseddau Ieuenctid, sydd wedi’i gynnwys yn flaenorol yng nghyllideb yr heddlu, bellach wedi’i gynnwys yng Nghronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd (£95,968). Mae hyn yn newid o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, ond nid yw'n effeithio ar y cyllid cyffredinol.

## 6 Goblygiadau

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth | Dim goblygiadau ar wahân o ran amrywiaeth |
| Ariannol | Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i Banel yr Heddlu a Throsedd am y sefyllfa monitro refeniw a chyfalaf fel ag y mae ddiwedd mis Rhagfyr 2016.<br><br>Mae cyllid digonol yn hanfodol i gyflawni cynllun yr heddlu a throsedd ac i fodloni ein gofynion cyfreithiol. |
| Cyfreithiol | Dim goblygiadau cyfreithiol ar wahân |
| Risg | Dim goblygiadau risg ar wahân |
| Cynllun yr Heddlu a Throsedd | Dim goblygiadau heddlu a throsedd ar wahân. |